

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 466 • Mai 2016 • 50c

Haeloni Dyffryn Ogwen

Apêl Eleanor Jones

Fel y gŵyr pawb yn yr ardal, sefydlwyd Apêl Eleanor i Brynu Offer i Ward Alaw, dair blynedd a hanner yn ôl bellach, yn Hydref 2012, gan y diweddar Eleanor Jones, Bryn Caseg. Yn ystod gwaeledd Eleanor bu hi, ynghyd â Phwyllgor bychan yr Apêl, Joe Hughes, Linda Brown, ac Ann Williams, a nifer sylweddol o deulu a ffrindiau, wrthi'n brysur iawn yn trefnu amryfal ddigwyddiadau i godi arian. Yn ystod yr amser hwn cododd yr Apêl y swm anhygoel o

£43,832

tuag at Ward Alaw. Gwyddom oll i Eleanor golli ei brwydr ddewr ddiwedd y llynedd, a, bellach, mae'r Apêl oedd yn cario ei henw wedi ei dirwyn i ben. Mae'r arian i gyd wedi ei drosglwyddo yn ystod mis Ebrill.

Er i beth o'r arian ddod i'r Apêl o ardaloedd y tu allan i Dyffryn Ogwen, gan drigolion ardaloedd eraill, daeth y rhan fwyaf o'r swm sylweddol a gasglwyd gan drigolion y dyffryn hwn. Nid yw hyn yn syndod, o gofio mor arbennig o barod i gynorthwyo, a pha mor eithriadol o lawagored yw trigolion yr ardal. Ar ddiwedd yr Apêl, fel hyn, hoffai Pwyllgor

yr Apêl, Richard, a phlant a theulu'r ddiweddar Eleanor Jones, a'i ffrindiau i gyd ddiolch o galon i bawb am eu haelioni eithriadol.

Fe ailadroddaf y swm a gasglwyd, **£43,832** a hynny mewn ychydig dros dair blynedd. Mae hynny, diolch i chi, dros £1000 y mis, bob mis.

Felly ar ran y pwyllgor, diolch yn fawr iawn, iawn! Ann Fôn Williams

Sgïo ym Mwlgaria at achos da

Un arall sydd wedi casglu arian at achos arbennig yw Gethin Williams, Caeau Gleision. Bu'n sgïo am 10 cilometr yn Pamporovo, Bwlgaria i gasglu arian at Glwb sgïo i bobl anabl. Llwyddodd i gasglu £146 at yr achos pwysig hwn. Diolch iddo yntau hefyd am ei ymdrech ysbrydoledig.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Nos Lun 11 Ebrill, cafwyd cyfarfod arbennig wedi ei drefnu gan Mrs Nia Williams. Roedd y noson hon yn gyfle i staff o wardiau'r ysbyty ddod ymlaen i ddiolch i'r Cyfeillion am eu rhoddion caredig. Roedd yna 6 ward yn cael eu cynrychioli, wardiau a dderbyniodd offer gwerth oddeutu £30,000.00 rhyngddynt.

Daeth Mrs Meinir Williams i annerch ar ran y Bwrdd Iechyd gan ddatgan eu diolch i'r Cyfeillion. Cafwyd hanes gwaith a sefydlu'r Cyfeillion gan y cadeirydd, Mr Joe Hughes.

Yna daeth Haf Thomas o Lanrug i gyflwyno siec am £700.00 i law'r cadeirydd. Mae Haf yn ferch arbennig a phrysur, ac mae'n dewis elusen wahanol bob blwyddyn. Eleni, y Cyfeillion oedd yn lwcus.

Bu'r Cyfeillion yn brysur gyda'u casglu yn siop y Co-op yn Llanfairfechan, ble casglwyd dros £200.00. Hefyd, derbyniwyd rhodd o £200.00 gan Glwb Rotary, Bangor. Cofiwch am y diwrnod agored yn 29 Ffordd Ffrydlas, cartref Eira a Joe Hughes, ddydd Llun, 27 Mehefin o 10.00 y bore tan 10.0 yr hwyr.

Marathon Llundain



Fiona Wynne Parry, Tregarth a Donna Redvers Jones, gynt o Fynydd Llandygái, cyn Marathon Llundain i godi arian at elusennau o'u dewis. Gweler y manylion yn llawn dan newyddion Tregarth.



Mr Joe Hughes, cadeirydd y Cyfeillion yn derbyn siec am £700.00 gan Haf Thomas, merch arbennig a gweithgar.

Dim ond rhai enghreifftiau o ymdrechion a haelioni'r ardal yw'r rhain. Gwyddom fod trigolion Dyffryn Ogwen a'r cylch yn barod iawn i gefnogi pob mathau o elusennau ac achosion da gydol y flwyddyn ac mae hynny'n achos dathlu ac yn brawf o'ch gwaith caled a'ch haelioni parhaus. Diolch i bawb



Dyma Richard a Gethin yn sgïo.

DARLITH GOFFA DAFYDD ORWIG 2016

"Gwerthwr gorau'r Gymraeg"

Traddodir y ddarlith gan
J.Elwyn Hughes

yn Llyfrgell Bethesda
Nos Lun 13eg Mehefin 2016

7.30 o'r gloch

Croeso Cynnes i Bawb . Mynediad am Ddim

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

Siân Esmor Rees
☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi a Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Fiona Cadwaladr Owen

Y golygydd ym mis Mehefin fydd
Trystan Pritchard
27 Allt Penybryn,
Bethesda,
LL57 3BD
07402 373444
E-bost: trystanrp1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Mercher,**
1 Mehefin, os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 16 Mehefin**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan
@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangr Griffiths@btinternet.com
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn
swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Spar, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Dyddiadur y Dyffryn

- Mai**
- 21 Bore Coffi Gorffwysfan. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
 - 23 Te bach yn Festri Carmel . 2.30 – 4.00.
 - 26 Merched y Wawr Bethesda.
Gwibdaith.
 - 28 Bore Coffi Clwb Pêl-droed Mynydd
Llandygai. Caffi Coed y Brenin.
10.00 – 12.00.
 - 28 Bore Coffi Eglwys Gelli (yn yr Eglwys)
10.30 -12.00

- Mehefin**
- 02 Sefydliad y Merched Carneddi. Helen
Holland. Cefnfaes am 7.00.
 - 02 Cyfarfod Blynnyddol Plaid Lafur
Dyffryn Ogwen, Cefnfaes am 7.30.
 - 06 Merched y Wawr Tregarth. Rhiannon
Parry. Festri Shiloh am 7.00.
 - 11 Sioe Dyffryn Ogwen.
 - 11 Marchnad Ogwen yn Sioe Dyffryn
Ogwen.
 - 13 Darlith Goffa Dafydd Orwig yn
Llyfrgell Bethesda.
 - 16 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
 - 18 Te Mefus. Ysgoldy Maes y Groes,
Talybont am 2.00
 - 23 Refferendwm Ewrop.
 - 25 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
Neuadd Ogwen 10.00 – 12.00.
 - 27 Diwrnod Agored Cyfeillion Ysbyty
Gwynedd yn 29 Ffordd Ffrydlas.
10.00 yb – 10.00 yh

Rhoddion i'r Llais

- £20.00 Er cof am Elwyn a fuasai yn 80
oed ar 14 Mai, oddi wrth Eileen
Roberts, Llygad yr Haul,
Carneddi, a Janice, Kevin a Karen.
 - £10.00 Er cof am fy nhad, Robert John
Pritchard a fu farw 16 Mai 1959 yn
52 oed. Hefyd i gofio pen-blwydd
fy mab, Robert Werner Pritchard
ar 26 Mai, oddi wrth Dafydd
Pritchard, 17 Rhes Elfed.
 - £5.00 Er cof am Robert Erwyn Williams,
24 Bro Rhiwen, Rhiwlas, oddi wrth
ei briod, Gwen a'r teulu.
 - £5.00 Er cof am Peter Grace, Tan y
Weirglodd Lodge, Rhiwlas, oddi
wrth Sharon a Lawrence.
 - £50.00 Er cof am Mrs Nancy Williams,
Ffordd Stesion, Bethesda, oddi
wrth y teulu.
 - £50.00 Er cof am Mr Jim Amos,
Glanogwen, Bethesda, oddi wrth
Val a'r teulu.
- Diolch yn fawr**



Llythyrau

Annwyl Llais Ogwan
Hoffwn, ar ran staff Theatr Genedlaethol Cymru, ddiolch i bawb yn ardal Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau a helpodd i sicrhau llwyddiant cynhyrchiad **Chwalfa** yn Pontio ym mis Chwefror eleni. Fe wnaeth nifer fawr o drigolion yr ardal gymryd rhan yn y cynhyrchiad, a bu nifer fawr hefyd yn hael eu cymwynas wrth inni baratoi ar ei gyfer.

Wrth gwrs, roedd gorfod canslo'r perfformiad gwreiddiol nôl ym mis Medi 2014 yn siom aruthrol i bawb oedd wedi bod wrthi'n paratoi mor ddiwyd bryd hynny. Ond diolch i ddyfal barhad ac ewyllys da nifer fawr o bobl yr ardal a thu hwnt, fe wnaethom lwyddo i gael y maen i'r wal. Roedd hyn yn gyfuniad perffaith o ddycnwch proffesiynol Pontio, Cwmni'r Frân Wen, ac wrth gwrs Theatr Genedlaethol Cymru ar y naill law a brwdfrydedd pobl yr ardal ar y llaw arall.

Yn amlwg, mae stori Streic Fawr Chwael y Penrhyn yn rhan allweddol o stori Bethesda a Dyffryn Ogwen, ac roedd hi'n fraint i ni fel cwmni gael gweithio efo trigolion yr ardal er mwyn rhoi'r stori anhygoel hon ar lwyfan Theatr Bryn Terfel yng nghanolfan newydd sbon Pontio. Dwi'n

gwybod fod pawb a gymerodd ran wedi cael budd mawr o'r profiad - er eu bod i gyd wedi gorfod gweithio'n galed iawn, a rhoi oriau lu o'u hamser at y prosiect. Dwi'n mawr obeithio hefyd fod trigolion yr ardal wedi mwynhau'r profiad o wyllo'r cynhyrchiad yn Pontio ac yn teimlo ein bod ni gyda'n gilydd wedi gwneud teilyngdod â'r stori arwrol hon - sydd, wedi'r holl flynyddoedd, er gwaethaf y caledi a'r tristwch sydd ynghlwm â hi, yn arwydd o hyd o ddycnwch, dewrder, a chymeriad y fro anrhydeddus hon.

Rwyf yn mawr obeithio y bydd dylanwad cadarnhaol y profiad yn aros yn hir efo pawb gafodd eu cyffwrdd gan y profiad, y daw cyfle eto i ni gydweithio mewn rhyw fodd, ac y daw pobl yr ardal i brofi rhai o gynyrchiadau eraill y Theatr Genedlaethol pan fyddwn yn ymweld â'r ardal eto.

Diolch Dyffryn Ogwen, o waelod calon. Mi fydd y profiad o weithio yno efo chi, ac efo pobl bendigedig y fro, yn aros yn hir yn y cof.

Arwel Gruffydd
Cyfarwyddwr Artistig
Theatr Genedlaethol Cymru

GWASANAETH BWS I FYNY'R NANT

Annwyl Olygydd,
Cafwyd newyddion da iawn yn ddiweddar gyda'r cyhoeddiad bod gwasanaeth bws yn ailddechrau o Fangor, trwy Fethesda, ac i fyni Nant Ffrancon i Fetws y Coed. Mae'r gwasanaeth hwn, gan gwmni Express Motors, eisoes wedi cychwyn, a bydd y bws ar gael deirgwaith y dydd ar ddyddiau Sadwrn a Sul, ac ar Wyliau'r Banc. Gwelwyd colled fawr ar ôl y gwasanaeth gan drigolion yr ardal, ac ymwelwyr pan ddaeth i ben dros ddwy

flynedd yn ôl. Mae'r gwasanaeth sydd wedi ailgychwyn yn gynllun peilot sy'n parhau am bedwar mis dros yr haf. Gobeithio y bydd y gwasanaeth yn profi'n llwyddiannus, ac yn cael ei ddefnyddio'n llawn gan drigolion yr ardal a thu hwnt. Gwnaed llawer o waith i geisio cael y gwasanaeth hwn yn ei ôl, a gobeithiwn y byddwch yn defnyddio'r bysiau, ac y bydd y gwasanaeth yn mynd o nerth i nerth.

Yn gywir
C yng Ann Williams

Gwasanaeth Sherpa (Express Motors, 01286 881 108)

Betws y Coed - Bethesda - Bangor							
Sadwrn, Suliau a Gwyliau Cyhoeddus			o 30/04/16 hyd at 29/08/16				
Betws y Coed, Gorsaf Trên	0930	1230	1600	Bangor, Gorsaf Trên (S)	0825	1125	1455
Rhaeadr Ewynnol	0935	1235	1605	Bangor, Cloc (F)	0830	1130	1500
Capel Curig	0940	1240	1610	Castell Penrhyn	0840	1140	1510
Llyn Ogwen	0950	1250	1620	Brynbellla	0847	1147	1517
Bethesda, Rhes Ogwen	1000	1300	1630	Bethesda, Rhes Penrhyn	0850	1150	1520
Bethesda, Londis	1000	1300	1630	Bethesda, Spar	0900	1200	1530
Brynbellla	1006	1306	1636	Llyn Ogwen	0910	1210	1540
Castell Penrhyn	1013	1313	1643	Capel Curig	0920	1220	1550
Bangor, Cloc (F)	1026	1326	1656	Rhaeadr Ewynnol	0925	1225	1555
Bangor, Gorsaf Trên (S)	1030	1330	1700	Betws y Coed, Gorsaf Trên	0930	1230	1600

Nid yw Cyngor Gwynedd yn derbyn unrhyw atebolrwydd oherwydd anghyfleustra, cost neu golled a achoswyd o ganlyniad i unrhyw anghywirdeb yn y cyhoeddiad hwn.

YN EISIAU GWIRFODDOLWYR!

Mae Neuadd Ogwen angen mwy o wirfoddolwyr i helpu yn ystod ein digwyddiadau.

Eich neuadd chi yw hon!

Am ragor o wybodaeth: Cysylltwch ag Owain ar **01248 208 485** neu **07442 532 746**
owain@neuaddogwen.com neu gyrrwch neges drwy dudalen
Facebook y Neuadd

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r
gloch a hanner dydd

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mai

£30.00

(20) Andre Lomozik, Rhos y Coed,
Bethesda

£20.00

(51) Dr Einir M. Young, Bro Emrys,
Talybont

£10.00

(106) Beryl Hughes, Meini Gleision,
Tregarth

£5.00

(5) Megan Phillips, Rhes Gordon,
Bethesda

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Cofion

Anfonwn ein cofion at Dr Goronwy Wyn Owen, sy'n dal ddim yn dda. Brysiwch wella, Goronwy.

Cofion hefyd at Miss Meriel Twigge, sydd ar hyn o bryd yn aros ym Mhlas Ogwen.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Mai 22: Oedfa
Mai 29: Parchg Ifor Jones
Mehefin 05: Parchg Gwenda Richards
Mehefin 12: Mr Glyn Owen
Mehefin 19: Parchg Huw Dylan
Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Doris Williams, Maes Caradog, a William a Helen a Kevin yn eu profedigaeth o golli Helen o Lanrwst, yn 48 oed, yn ystod mis Ebrill.

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk



Fe fyddwn yn symud o’n cartref arferol fis Mehefin i faes Sioe Dyffryn Ogwen. Croeso cynnes i chwi alw i mewn i’r babell atom ni o 9.30 ymlaen. Ni fydd Stondin ‘Un Tro’ na Stondin Elusen y mis yma oherwydd diffyg lle. Fe fyddwn yn ôl yn Neuadd Ogwen am weddill y flwyddyn wrth gwr.

Mae’r Farchnad erbyn hyn wedi dod yn ddigwyddiad pleserus bob mis i nifer o drigolion Dyffryn Ogwen - i gyfarfod a chymdeithasu yn ogystal â chefnogi gwerthwyr a chynhyrchwyr lleol. Diolch am eich cefnogaeth i ni!

Mae’r Stondin ‘Un Tro’ ar gael i’w llogi Awst a Medi ar hyn o bryd. Cysylltwch â’r Ysgrifennydd am fanylion ac amodau llogi. (Mae’n bosibl i chwi fynd ar ein rhestr aros rhag ofn y daw lle gwag yn annisgwyl).

Mis Ionawr sydd nesaf yn rhydd i’r Stondin Elusen.

Mae gwybodaeth gyfredol am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar Facebook.

Stondin y mis yma yw **Stondin Catrin** Fe soniwyd ychydig am y Stondin yma yn y Llais fis diwethaf ac erbyn hyn, rydym wedi cael llun o’r Stondin. Mae Catrin wedi ymuno â Marchnad Ogwen yn ddiweddar ac yn cynhyrchu nwyddau pren lliwgar. Mae pob math o addurniadau addas i’r tŷ / cegin, priodas, genedigaeth, pen-blwydd arbennig, graddio ac yn y blaen. Gall y nwyddau yma fod yn unigryw ac arbennig gan fod Catrin yn gallu rhoi enw neu neges o’ch dewis chwi ar y cynnyrch.



Catrin a’i nwyddau pren lliwgar

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

- Eglwys y Santes Fair**
- Gwasanaethau*
- 22 Mai 9.30am Cymun Bendigaidd
- 29 Mai 10.30am St. Cross a St Tegai yn ymuno â Gelli
- 5.00yp Canu Mawl yn St Tegai
- 5 Mehefin 9.30am Boreol Weddi
- 12 Mehefin 9.30am Cymun Bendigaidd

- Clwb Cant*
- Mis Ionawr
1. Myra Jones (33) 2. Rhianon Sturrs (15)
3. Muriel Williams (98)

- Mis Chwefror
1. Mair Owen (20) 2. Babs Roberts (44)
3. Pat Jones (36)

- Mis Mawrth
1. Maldwyn Morris (77) 2. Iolo Williams (165)
3. Viv Williams (168)

Bore Coffi

Cynhelir Bore Coffi yn yr Eglwys ddydd Sadwrn 28 Mehefin rhwng 10.30 a 12.00. Ddydd Sadwrn 2 Gorffennaf, cynhelir ‘Garddwest y Tair Eglwys’ yn Ficerdy Pentir rhwng 1pm a 4pm. Mae yna gystadleuaeth ffotograffiaeth:

Dosbarth 1 – Oedolion

Dosbarth 2 – Dan 16 oed

Testun “Agored” (Dim llai na 7” x 5”) Felly rhowch gynnig ami! Croeso i rywun gystadlu – 50c yr un. Anfonwch eich lluniau erbyn 25 Mehefin at Rosemary Williams, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth.

- Clwb 100 Canolfan Tregarth Mis Ebrill**
- 30 Dafydd Roberts – £15
- 24 Emlyn Thomas – £10
- 22 Glyn Davies – £5

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Joshua Williams, Ffordd Tanrhiw sydd wedi llwyddo yn ei brawf gyrru yn ddiweddar. Pwyll rŵan Josh!

Symud Tŷ

Pob dymuniad da i Buddug a Stan Roberts, Y Garnedd, Tal y Cae, sydd yn symud yn ôl i fyw i’w hen gynefin yn Llanfairpwll. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd.

Daeth llwyddiant i un o wyresau Buddug a Stan, sef un o aelodau y Grŵp Cordia a ddaeth yn fuddugol yng Nghystadleuaeth Cân i Gymru, ac yna ennill yn yr Ŵyl Ban Geltaidd yn yr Iwerddon. Ardderchog!

Bydd Gwynedd Jones a’r teulu yn symud i fyw i Y Garnedd, sef cyn-gartref Buddug a Stan. Maent yn symud o Braich, Tregarth. Yr un yw’r dymuniadau gorau i chwithau fel teulu bach.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Fiona Wynne Parry, Llainfadyn, a Donna Redvers Jones (gynt o Fynydd Llandygái), a lwyddodd i redeg Marathon Llundain fis diwethaf a hynny mewn amser ardderchog o bedair awr a phum deg tri munud. Roedd y ddwy wedi llwyddo yn Hanner Marathon y Byd yng Nghaerdydd ddiwedd mis Mawrth eleni. Tipyn o gamp yn wir! Mae Fiona yn rhedeg i godi arian tuag at gronfa Cymdeithas MS er cof am ei thad a Donna yn cefnogi cronfa Cymdeithas Alzheimers er cof am ei mam.

Yn yr Ysbyty

Bu Oscar Bowen Jones, Cae Drain, yn Ysbyty Gwynedd am gyfnod yn ddiweddar. Erbyn hyn mae wedi dychwelyd i Gartref Nyrsio Cerrig yr Afon yn Y Felinheli. Cofion cynnes ato gan holl drigolion Tregarth a’r ardal.

Cofion

Nid yw Robert Hugh Roberts, 22 Ffordd Tanrhiw wedi bod yn teimlo’n rhy dda yn ddiweddar. Gwellhad buan Robert.

Pen-blwydd arbennig

Pen-blwydd hapus iawn i Glenys Clarke, Ffynnon Wen, a ddathlodd ei phen-blwydd yn nawdeg oed yn ystod Mis Ebrill. Mae Glenys yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Nos Lun, 4 Ebrill, rhoddodd Llywydd y gangen, Margaret Jones, Cae Drain groeso cynnes i’r holl aelodau i Festri Capel Shiloh ac i wraig wadd y noson , sef y nofelydd o Rhiwlas, Bet Jones. Roedd yn bleser cael ei chwmmi eleni gan iddi fethu â dod at y gangen i Dregarth y llynedd oherwydd yr eira! ‘Profiadau Bet’ oedd thema’r noson ac yn ei dull naturiol ac annwyl cawsom ei hanes cynnar ym mhentref Trefor, a’r hanes hwnnw ym mro ei mebyd a fu’n sail i’w nofel gyntaf, sef ‘Beti Bwt’. Enillodd y nofel honno Fedal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol yr Wyddgrug iddi yn 2007. Rhoddodd ddiolch i amryw a fu’n ei hysgogi i sgwennu yn Ysgol Glan y Môr ym Mhwlheli ac yn arbennig athro Celf yr ysgol, sef Elis Gwyn Jones. Yn ei hail nofel dewisodd sgwennu am ei chyfnod yn athrawes yn Lerpwl yn nechrau’r saithdegau, sef ‘Gadael Lennon’.

Enillodd Gystadleuaeth Daniel Owen am sgwennu ei nofel ‘Craciau’ yn Eisteddfod Genedlaethol 2012 ac yn y nofel honno, a leolwyd ar Ynys Môn ceir ymdriniaeth o destun sydd bellach yn achosi llawer iawn o drafod mewn aml i ardal sef ‘ffracio’. Ei bwriad yn y dyfodol agos yw sgwennu nofel gyda Nant Gwrtheyrn yn gefndir iddi ac edrychwn ymlaen yn fawr at ei darllen. Diolchwyd yn fawr i Bet gan Alwena Puw a llongyfarchwyd hi am y swmp o nofelau difyr dros ben mae wedi’i sgwennu ar ein cyfer ni i gyd gan edrych ymlaen at gael darllen mwy o’i gwaith.

Ar 9 Mai byddwn yn croesawu Susan Peters i’r gangen ac mae’n arbenigwr am drefnu blodau. ‘Blods’ fydd testun ei sgwrs.

Cofiwch hefyd am gyfarfod y gangen ym mis Mehefin. Ar 6 Mehefin daw Rhianon

Parry i siarad am ‘Lysiau llesol Salisbury’. Croeso cynnes i’r gangen yn Festri Capel Shiloh am 7.30 o’r gloch.

Capel Shiloh, Tregarth

Cyhoeddiadau Shiloh. Oedfa am 5 o’r gloch oni nodir yn wahanol.
Mai 22: Geraint Roberts, Porthaethwy
Mai 29: JO Roberts, Bethesda
Mehefin 5: Philip Barnett
Mehefin 12: Stephen Roe, Porthaethwy
Mehefin 19: Mererid Mair, Caernarfon

Dathlu bod yn Nain a Thaid!

Llongyfarchiadau i Gwen a Dafydd Jones, Bangor, gynt o Rhes Groes, Sling, ar ddod yn Nain a Thaid i Mali Wyn, merch fach i’w mab Gavin a’i briod. Llongyfarchiadau.
Yr un yw’r dymuniad i Eirwen a Wyn Williams, Tyddyn Dicwm. Yn Aberystwyth fe anwyd Seth ar 1 Ebrill, sef mab bach i Elwyn a Kate a brawd bach wrth fodd Greta. Mwynhewch y fraint o fod yn Nain a Thaid.
Llongyfarchiadau hefyd i Dewi Lloyd a Ffion Mai Jones, 2 Ffordd Tanrhiw ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, sef Gruff Lloyd Jones ar 16 Ebrill. Mae Dewi yn fab i Tudor ac Olwen Jones, Fferm Coed Hywel, Glasinfryn. Mae’n siŵr bod Iago Tudor, mab Ffion Mair, chwaer Dewi, wrth ei fodd efo’i gefnder bach newydd!

Profedigaeth

Daeth y newyddion trist am farwolaeth un a fu’n aelod yn Shiloh am flynyddoedd, sef Beti Whitehead, gynt o Gorwel Deg, Tregarth. Ni fu iechyd Bet yn dda ers rhai blynyddoedd a chafodd ofal arbennig yng Nghartref Plas Ogwen, Bethesda ac yna yng Nghartref Cerrig yr Afon yn Y Felinheli. Bu farw mewn Cartref gofal yn Wrecsam yn agos at rai o’i theulu. Cydymdeimlwn yn ddwys â’r bechgyn, sef Nigel a Kevin , ei hwyrion a’r holl deulu yn eu galar. Bu ei hangladd yn Shiloh ddydd Iau, 5 Mai.

Cartref Gofal

Anfonwn ein cofion fel cynulleidfa Shiloh at un o’n haelodau , sef Mrs Brockelbanck, sydd wedi symud o’i chartref ym Mro Syr Ifor i gartref gofal yn Llanrug.

Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd

Diolch i bedair o aelodau Shiloh, sef Ffion, Anwen, Eirwen a Gwenda a fu’n cymryd rhan yng nghyfarfod Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd ym Methesda eleni. Diolch i Ceri Dart o Eglwys Unedig Bethesda a drefnodd y cyfan, i Elina Owen, Bethesda am annerch y cyfarfod, i Sioned Williams am lywyddu ac aelodau yr Eglwys Unedig am baratoi lluniaeth ar ddiwedd y cyfarfod bendithiol.

Diolch

Dymuna Euronwy, Garnon, Craig y Pandy, ddiolch i bawb am yr anrhegion a’r cardiau a derbyniodd ar ei hymddeoliad yn ddiweddar. Diolch hefyd i Rowena, Sue a’r genod Gofal Cartref am eu cyfeillgarwch a’u caredigrwydd dros y blynyddoedd – heb anghofio’r ‘parti’

annisgwyl ar ei diwrnod olaf. Diolch eto.

Ymddeol

Dymuniadau gorau i Mrs Alison Wynn Ellis, Dolwern, 41 Tal y Cae ar ei hymddeoliad ddiwedd mis Ebrill fel Ymwelydd Iechyd. Dymuna Alison ddiolch yn fawr am y

negeseuon, y cardiau a’r anrhegion a dderbyniodd gan ei chydweithwyr yn Tŷ Cegin a phractis Bron Derw, Bangor. Hefyd hoffai ddiolch o galon am y dymuniadau gorau a’r anrhegion a gafodd gan y teuluoedd – roedd yn fraint cydweithio â nhw ac mae’n ddiolchgar iawn am eu caredigrwydd.

Oes rhywun yn adnabod y rhain?



Dyma lun yr Ogwen Hotel a’r Stablau yn Ffordd Stesion a ddymchwelwyd yn 1976. O flaen y gwesty mae dau ŵr ifanc yn gwisgo ffedog siop gig Aston Price Davies a Willie Parry, a beic bob un ganddynt yn barod i ddanfôn cig. Tybed a oes unrhyw un ohonoch yn gwybod pwy ydy’r ddau ŵr ifanc? Byddai Gwen Davies Tanysgrafell Isaf, a Dr J Elwyn Hughes, Bethel yn dra diolchgar petai rhywun yn gallu bwrw rhyw oleuni ar y dirgelweh. Gan ddiolch ymlaen llaw.

Pentir

Anwen Thomas, Min yr Afon,
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i Cedol Dafydd am gael ei ddewis i redeg yn nhîm traws-gwlad Cymru yn Falkirk, yr Alban, ym mis Mawrth. Hefyd cafodd ei ddewis i redeg dros dîm 15 oed Cymru ym Mini Marathon Llundain yn dilyn llwyddiant o ddod yn ail ym Mhencampwriaethau Cymru yn Abertawe fis Chwefror.



Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaid (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â’r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio’r dosbarth

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach, Coed y Parc,
Bethesda, LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant,Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

Yr Eglwys Unedig

Braf yw gallu dweud bod ein hoedfaon yn dal i gael cynulleidfaoedd teilwng ar y Sul. Ar fore Sul y Pasg cafwyd Gwasanaeth Cymun o dan arweiniad Y Parchedig Trefor Lewis.

Cawsom oedfa Fedydd ar fore Sul, 1 Mai, gyda’r Parchedig R O Jones yn gwasanaethu. Bedyddiwyd Illtud Gwernydd ac Ifan Wyn – dau gefnder bach annwyl. Croeso mawr iddynt.

Mae disgyblion yr Ysgol Sul yn brysur yn paratoi ar gyfer eu harholiadau llafar cof, a’r Gymanfa sydd i’w chynnal yma yn Jerusalem fore Sul, 22 Mai. Heddwen Lois fydd yn arwain. Gyda’r hwyr, yr un noson, cynhelir Cymanfa’r oedolion, gyda Trystan Lewis yn arwain, a Beti Rhys yn cyfeilio. Cyflwynir eitemau gan Gôr y Dyffryn.

Dal yn ffyddlon hefyd mae’r criw ifanc sy’n dod i’r Clwb ar nos Fawrth – diolch iddynt am eu brwdfrydedd, a chofiwn bob amser mai hwy yw dyfodol achos Iesu Grist yn Jerusalem. Testun llawenydd hefyd oedd derbyn Menna Wyn Jones yn ôl yn aelod o’r Eglwys Unedig – croeso mawr i chwi, Menna.

Y Gymdeithas

Yng nghyfarfod mis Ebrill, croesawyd pawb gan Joe, y Llywydd, ac anfonwyd cofion at y rhai a fethodd fod yn bresennol. Daeth Mrs Bethan Wyn Jones atom i sôn am fywyd natur glannau Môn, a chawsom noson ardderchog a llawn gwybodaeth. Diolchwyd iddi gan Neville, ac i Mair, Nita ac Elna am baratoi’r baned.

Trefnwyd bws ar gyfer noson olaf y tymor, pryd y cawn swpera yn Noddfa, Penmaenmawr.

Pleser yw cyhoeddi bod elw o £360 wedi’i wneud ym more coffi’r Gymdeithas yn ystod y mis. Diolch i bawb am bob cymorth, ac i’r ardalwyr ffyddlon am eu cefnogaeth.

Y Blychau Cenhadol

‘Roedd y casgliad eleni yn £240. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Sasiwn Chwiorydd y Gogledd

Ar 4 Mai, wedi wythnosau o baratoi, daeth y Sasiwn i Jerusalem. Wrth wneud y paratoadau hynny, ni wyddem y byddem heb wres, organ, na thrydan i ferwi dŵr ar y diwrnod mawr ei hun! Ond yng nghanol yr holl anawsterau, llwyddwyd i roi croeso arbennig o gynnes i’r ddwy gynulleidfafa fawr a ddaeth ynghyd. Cafwyd anerchiadau, rhannau dechreuol, a chanu grymus yn y ddau gyfarfod. Daeth Adran Bentref yr Urdd, Dyffryn Ogwen i ganu i ni yn y pnawn, o dan arweiniad Angharad Llwyd, a mawr oedd y canmol am eu perfformiad. Diolch yn arbennig i Benaethiaid Ysgolion Abercaseg, Pen-y-bryn a Llanllechid, am eu parodrwydd

i ryddhau’r plant o’u gwersi am gyfnod byr. Gyda’r nos, daeth dwy ifanc, sef Buddug ac Elen, i’n swyno gyda’u datganiad o Gerdd Dant. Diolch iddynt i gyd am fod mor barod i gymryd rhan.

Diwrnod bendithiol, felly, er gwaethaf yr holl drafferthion, a chyda chymorth llu o ferched - a heb anghofio’r dynion, o dan arweiniad cadarn Jean, cafwyd Sasiwn i’w chofio. Diolch i bob un a gynorthwyodd mewn unrhyw fodd, ac yn arbennig i Gaffi Seren, a roddodd ddŵr poeth i ni am oriau, ac a arhosodd ar agor yn hwyrach nag arfer er mwyn ein helpu. Braf yw cael byw mewn cymuned fel hon!

Cyhoeddiadau’r Sul:
22 Mai: Moliant y Plant (10) Cymanfa Oedolion (5.30)
29 Mai: Y Parchedig Mererid Mair (10)
Y Parchedig Eric Jones (5)
5 Mehefin: Trefniant Mewnol (10) Y Parchedig Geraint Roberts (5)

Eglwys Crist Glanogwen
Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:
Sul Cyntaf pob mis
Cymun Bendigaid am 8.00am
Boreol Weddi Cymraeg – 11.00am
Ail Sul pob mis - Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
Trydydd Sul pob mis – Cymun Bendigaid dwyieithog – 110.00am
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (Lleoliad i’w gyhoeddi)
Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid
Sul, 22 Mai, Y Drindod, Cymun Bendigaid, - 11.00am
Sul, 29 Mai, Y Drindod 1. Gwasanaeth Cymun Bendigaid ar y cyd yn St. Ann a St. Mair, Mynydd Llandegai – 10.00am
Mae yna nifer o aelodau yn cwyno oherwydd amrywiol anhwylder. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi gan fawr obeithio y byddwch cyn hir yn medru mynychu rhai o’r gwasanaethau.

Pen-blwydd Hapus Meithrinfa Ogwen
Pwy fuasai’n meddwl bod yna bymtheg mlynedd ers i Feithrinfa Ogwen agor ei drysau am 8.00am ddydd Llun 30 Ebrill 2001.

Erbyn hyn mae llu o blant y dyffryn wedi dod drwy’r drysau a bellach rhai ohonynt wedi gadael ysgol eu hunain!

Diolch o galon i’r holl staff sydd wedi galluogi i hyn ddigwydd drwy chwarae a gweithio’n galed hefo’r plant.

Fis Ebrill 2004 agorwyd Clwb ar ôl Ysgol a Chlwb Gwyliau yn Ysgol Llanllechid. Yn ogystal â hyn yn Chwefror 2014 ymunodd y Feithrinfa â’r cynllun Dechrau’n Deg i alluogi plant y dyffryn gael gofal yn rhad ac am ddim am ran o’r dydd. Llongyfarchiadau – edrychwn ymlaen at y newidiadau yn y dyfodol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Delyth a’r staff.

Llwyddiant wrth nofio
Ddechrau fis Ebrill, aeth Catherine a Gethin



Catherine a Gethin efo gwobrau lu

brawd a chwaer o Lanogwen, i gymryd rhan mewn Gala Nofio yn Llandudno, a dychwelsant adref gyda llu o fedalau a gwobrau. Llwyddodd Catherine i ennill 3 medal aur, un fedal arian, a daeth yn bedwerydd mewn ras arall. Hi gafodd y wobwr am ‘yr eneth orau yn ei hoedran’. Nid oedd ei brawd ymhell ar ei hôl, gan i Gethin ennill un fedal aur, un fedal arian, un fedal efydd, a dod yn seithfed mewn dwy ras arall. Enillodd yntau wobwr fel ‘y bachgen gorau yn ei oedran’, hefyd. Llongyfarchiadau i’r ddau ohonoch am wneud mor ardderchog.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Iwan a Rhian Llechid Owen ar fabwysiadu dwy chwaer fach, Ava Lois, 4 oed, ac Anaya Gwen sy’n dair oed. Mae’r ddwy yn setlo’n dda yn eu cartref newydd yng Nghaerdydd, ac mae Nain a Thaid Rhos y Nant wedi dotio. Dymuniadau gorau i’r teulu bach.

Diolch

Dymuna Llinos Hughes, Ystâd Coetmor, ac Ann Williams, Gerlan, ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd arian at eu hymgyrch i godi arian tuag at elusen *Solving Kids’ Cancer*.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Darren a Sian, Abercaseg ar enedigaeth eu mab bach Iwan. Llongyfarchiadau hefyd i Joan a Dafydd Bullock, Rhes Elfed a Christine ac Alan Hughes, Glanogwen ar ddod yn nain a thaid.

Dymuna Darren a Sian ddiolch i bawb am y cardiau, yr anrhegion a’r dymuniadau da a gawsant ar yr achlysur hapus.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus i Mr Gareth Jones, Pantglas, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 80 oed ddechrau mis Ebrill.

Cartref Newydd

Croeso i Dylan, Cara a’r plant i’w cartref newydd yng Nglanffrydlas.

Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Cara Ashton, Erw Las, ar basio ei phrawf gyrru ar y cynnig cyntaf ar 20 Ebrill. Da iawn ti!

Ysbyty

Cofion a gwellhad buan i’r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, yn eu plith:-
Mr Frank Thomas, Adwy’r Nant, Mr John Roberts, Ffordd Pant, Mrs Shirley Evans,

Abercaseg, Mrs Margaret Swift, Maes Coetmor a Mrs Gwenda Jones, Glanffrydlas.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Mrs Eileen Evans, Rhos y Nant, ben-blwydd arbennig ddiweddd mis Ebrill. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau, gan obeithio bod yr iechyd yn weddol y dyddiau hyn. Cofion cynnes atoch.

Marwolaethau

Mrs Annie Mary Williams, MBE
Ar 2 Ebrill, ym Mhlas Ogwen, lle cafodd ofal arbennig, bu farw Mrs Annie Mary Williams, Ffordd Stesion, yn 97 mlwydd oed. Priod y diweddar Mr John Williams, a mam a mam-yng- nghyfraith Jane a Bobby, Miriam a’r diweddar Alun, Elizabeth ac Eric, Blodwen a Junior. Roedd yn nain, hen nain a hen, hen nain annwyl a hoffus.

Adnabyddid hi fel Nancy neu Mrs Williams, Gwynfryn. Roedd yn wraig arbennig, bob amser yn barod ei sgwrs â phawb. Roedd yn aelod selog a gweithgar o Eglwys Crist Glanogwen, yn ogystal â’r NSPCC, y Lleng Brydeinig, y Blaid Geidwadol, Sefydliad y Merched a’r Yrfa Chwist ac yn cefnogi pob achos da. Roedd yn hoff iawn o deithio gyda’i ffrindiau, ar wibdeithiau Gorffwysfan a thramor gyda’r teulu!

Cynhaliwyd ei hangladd fore Sadwrn, 9 Ebrill, yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Eglwys y Santes Fair, Llanfairpwll. Gwasanaethwyd gan y Barchedig Christina McCrea a’r Parchedig John Mathews. Cafwyd teyrnged gan Mr Gilbert Bowen, ar ran yr Eglwys, a theyrnged bersonol gan Mrs Glenys Morgan. Cafwyd datganiad hyfryd o’r emyn “Mor fawr wyt Ti” gan y gantores, Tammy Jones. Mrs Christine Edwards oedd wrth yr organ.
Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu.

Eluned Mary Thomas.

Ar 10 Ebrill, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Eluned Mary Thomas (Mair) o 2 Rhes Gordon, gynt o Ty’n Caeau, Tregarth, yn 83 oed. Cymar David Eastwood, mam annwyl David a’i wraig, Angela, a nain hoffus i Georgia, Iwan a Benjamin. Cyn ymddeol bu’n nyrsio am flynyddoedd ac yn uchel ei pharch.
Bu’r angladd ddydd Llun, 18 Ebrill, gyda gwasanaeth yn Eglwys a Mynwent y Santes Fair, Gelli, Tregarth, yng ngofal y Parchedig John Mathews. Cafwyd teyrnged i’w fam gan David. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

Mr William James Amos

Yn ei gartref, 15 Glanogwen, ar 12 Ebrill, bu farw Mr William James Amos (Jim) yn 91 oed. Priod annwyl a gofalus Mrs Val Amos, a llys-dad caredig i Roger, Carol a Dafydd, Alison a Mike. Taid Jim i Kim a Katie, a hen daid i Ella Louise a brawd i John, Glenys a’r ddiweddar Phoebe.
Brodor o Lerpwl oedd Jim, ac wedi ymddeol ymgartrefodd yn Rachub ac yna Glanogwen. Tra yn Rachub roedd yn aelod o Eglwys Llanllechid cyn ymaelodi ag Eglwys Glanogwen. Daeth yn aelod o Glwb Gorffwysfan, ble byddai wrth ei fodd yn cymdeithasu ar foreau Llun a Gwener.

Bu’r angladd yn Amlosgfa Bangor fore Sadwrn 16 Ebrill, gyda’r Barchedig Christina McCrea a’r Parchedig Ganon Carol Roberts yn gwasanaethu. Mr D Wyn Williams oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn â’r teulu oll.

Mrs Gillian Roberts

Ar 20 Ebrill, yn 58 oed, bu farw Mrs Gillian Roberts, 8 Arafa Don, Stryd Fawr. Priod Mr John Roberts a mam annwyl Allen, Debbie, Darren a Kay-leigh, ac yn nain hoffus.
Bu ei hangladd ddydd Mercher, 27 Ebrill, yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Eglwys Coetmor, pryd y gwasanaethwyd gan y Ficer, y Parchedig John Mathews. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd.

Diolchiadau

Dymuna teulu’r ddiweddar Mrs Annie Mary Williams, MBE (Nancy), Ffordd Stesion, ddiolch o galon i holl aelodau’r teulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a hwy fel teulu yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl a charedig. Diolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a’r rhoddion hael tuag at achosion lleol. Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth yn Eglwys Crist Glanogwen ac yn Llanfairpwll.
Diolch i bawb yn y Feddygfa ym Methesda, i holl staff Plas Ogwen am eu gofal arbennig a charedig, ac i Gaffi Coed y Brenin am y lluniaeth ardderchog. Yn olaf, mae’r teulu yn ddiolchgar i Mr Gareth Williams, Garneddwen, am ei drefniadau tawel a pharchus.

Dymuna James Rowlands, 42 Abercaseg, ddiolch yn fawr i’r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 70 mlwydd oed ar 18 Ebrill. Diolch o galon i bawb.
Dymuna Gareth (Saer) ddiolch i bawb am eu presenoldeb, ac am y nifer o gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar noson arbennig ac annisgwyl i ddatlu ei ben-blwydd yn 80 oed yn y Clwb Criced ar nos Sadwrn, 2 Ebrill. Diolch hefyd i gadeirydd a phwyllgor y Clwb, ac ar ran fy hun a’r gwesteion, diolch i Carys, Helen, Gerallt, Bethan ac Annest am drefnu’r noson a’r bwffe bendigedig.

Mae Val a’r teulu yn diolch i’w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli Jim Amos. Diolch am y rhoddion at elusennau er cof amdano! Diolch i feddygon Canolfan Feddygol Bethesda, i’r nyrsys cymunedol a’r gofalcwyr am eu caredigrwydd a’u gofal o Jim.

Diolch hefyd i’r Barchedig Christina McCrea am ei gofal bugeiliol a’r gwasanaeth teimladwy. Diolch i Mr Wyn Williams, yr organydd, ac i Dylan a Meinir Griffith, y trefnwyr angladdau, am eu caredigrwydd a’u trefniadau trylwyr ac urddasol.

Gorffwysfan, Stryd Fawr

Ddydd Mercher, 23 Ebrill, aeth 43 o aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Gaer. Cafwyd diwrnod ardderchog, a phawb wedi mwynhau! Diolchodd y llywydd i’r rhai a oedd wedi trefnu ac i gwmni Clynnog a Trefor. Cofiwch am y wibdaith nesaf i Southport ar 29 Mehefin.

Ddydd Sadwrn, 21 Mai, yng Nghanolfan Cefnfaes, byddwn yn cynnal ein Bore Coffi o 10.00 tan 12.00. Byddwn angen help a nwyddau os gwelwch yn dda.

Yn ystod mis Ebrill collwyd dau aelod, sef Mrs Nancy Williams, Ffordd Stesion, a Mr Jim Amos, Glanogwen. Anfonwn ein cydymdeimlad at y ddau deulu.
Anfonwn ein cofion at y rhai sy’n sâl, sef Mrs Alice Jones, Tan y Garth, Mrs Christine Jones, Hen Ysgol, Mrs Gwenda Jones, Glanffrydlas a Mrs Margaret Swift, Maes Coetmor.

Merched y Wawr Bethesda

Mis Mawrth (gydag ymddiheuriadau nad ymddangosodd yr adroddiad yn rhifyn mis Mawrth), Cynhaliwyd cyfarfod o’r gangen uchod yng Nghanolfan Cefnfaes ar 31 Mawrth. Croesawyd yr aelodau gan y llywydd Elina Owen. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Pat Corns a Jean Northam. Croesawyd dwy aelod o Riwas i glywed y siaradwr gwadd a chydymdeimlwyd â chyn aelod Mari Annick Jones ar farwolaeth ei phriod Dafydd Ellis Jones, cyn brifathro Ysgol Pen-y-bryn. Atgoffodd y llywydd yr aelodau ei bod hi a Jennie Jones wedi cymryd rhan mewn tawelwch noddedig i godi arian at blant dan anfantais.
Cyflwynodd y llywydd y siaradwr gwadd Mr Alwyn Evans sydd yn wreiddiol o Riwas ac yn gyn ddisgybl o Ysgol Dyffryn Ogwen. Ers 2009 mae Mr Evans wedi gweithio gyda phrosiect Gweilch y Pysgod Dyfi. Roedd ganddo gyfres o luniau yn dangos datblygiad y cynllun, dan arweiniad Emyr Evans, o adeiladu’r nyth i ddyfodiad y pâr cyntaf wnaeth fagu tri chyw yn llywyddiannus yn 2011. Trwy osod trosglwyddion radio ar y cywion gellir olrhain eu taith yr holl ffordd i Ghana. Datblygwyd canolfan ymwelwyr yn ardal bro Ddyfi sy’n galluogi’r cyhoedd i wylïo’r adar rhyfeddol hyn. Cafwyd noson ddifyr ac adeiladol. Diolchwyd i’r siaradwr a’i briod Nesta, oedd yn rheoli’r offer technegol.

Mis Ebrill

Nos Iau 28 Ebrill cynhaliwyd cyfarfod o’r gangen. Croesawyd yr aelodau gan y llywydd Elina Owen ar noson ddigon oer a hithau ar drothwy mis Mai.
Cafwyd un ymddiheuriad gan Jean Northam. Cyhoeddodd Elina fod ei merch Mererid yn cerdded y "moonwalk" yn Llundain ar 21 Mai i godi arian tuag at ganer y fron, a’i bod yn cynnal tŷ agored yn ei chartref ym mis Mai.
Cyflwynwyd y siaradwraig, Mrs Ella Jones o’r Gaerwen, a’i chasgliad o ategolion o’i gwaith ei hun. Cyn athrawes gelf yw Ella Jones ac wedi treulio cyfnodau yn dysgu celf a dylunio a thechnoleg a phynciau ymarferol yn ysgol Dyffryn Ogwen cyn ymddeol bedair blynedd yn ôl i ganolbwyntio ar ei diddordebau ei hun. Dechreuodd trwy wneud bagiau llaw handi iawn yn defnyddio ffabrigau a thechnegau amrywiol. Yna datblygodd i greu pethau hyfryd iawn i roi ar eich pen sef cyfareddwyr (*fascinator*s) yn defnyddio ffabrig o goed bananas, sydd yn hawdd gweithio hefo fo. Ar y funud mae’n cyflenwi i ffrindiau a chydabod ac oddi ar y we. Roedd ei dychymyg a’i thalent yn rhyfeddol.

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Cydymdeimlo
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs June Johnson, 9 Bro Emrys, ar 4 Mai, yn 86 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod, Mr Brian Johnson, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Eglwys St. Cross
Dathlodd Val Withers, 6 Cae Bach, ei phen-blwydd yn 80 oed ar 25 Ebrill.
Hoffai ddiolch o waelod calon am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati, ac am yr anrhegion, y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd i ddathlu'r achlysur arbennig. Cynhelir Te Mefus yn Ysgoldy Maes y Groes brynhawn Sadwrn, 18 Mehefin am 2 o'r gloch.

Capel Bethlehem
Oedfaon y Sul
Mai 22: Y Gweinidog; Mai 29: Parchg Dafydd Job, Bangor
Mehefin 05: Parchg Dafydd Coetmor

Williams; Mehefin 12: Y Gweinidog
Mehefin 19: Parchg Trefor Lewis
Oedfaon am 2.00yp oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.
Yr Ysgol Sul am 10.00yb

Cyfarfod Chwarter
Braf oedd cael croesawu Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon i Fethlehem ar nos Fercher, 27 Ebrill. Cymerydd y rhannau defosiynol gan Mrs Jean Hughes. Mrs Barbara Jones oedd wrth yr organ, ac fe gyflwynwyd Hanes yr Achos ym Methlehem gan Neville Hughes, Ysgrifennydd yr Eglwys. Traddodwyd anerchiad hynod o ddiddorol gan y Parchedig Ddr R Alun Evans, Llywydd Cenedlaethol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Mwynhawyd lluniaeth yn y festri yn dilyn y cyfarfod yn y capel. Diolch i'r chwiorydd am eu gwaith.

Damwain
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Mrs Rita Hughes, Lônddŵr, a dderbyniodd lawdriniaeth i'w chlun yn dilyn damwain yn ei chartref. Brysiwch wella Rita.

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Ysbyty
Anfonwn ein cofion at Mrs Megan Parry, Penrhiw, sydd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Dymunwn adferiad buan i chi.

Clwb y Mynydd
Cafwyd prynhawn difyr iawn gyda Mrs Janet Williams yn sôn am ei hamser yn Awstralia. Mae mam a chwaer i Janet yn byw yn Awstralia, a hithau wedi treulio llawer o amser yno. Diolch yn fawr i chi Janet! Bydd Trefniant Blodau yn y cyfarfod nesaf.
Croeso mawr i chi ymuno â'r clwb.

Gwellhad Buan
Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn sâl gan ddymuno adferiad buan i chi.

Eglwys St. Ann a St. Mair
Mai 22: Cymun Bendigaid
Mai 29: 10 y bore Cymun Bendigaid - St. Ann (Yr unig wasanaeth yn y Plwyf y Sul hwn).
Meh. 5: Gwasanaeth teuluol
Meh. 12: Cymun Bendigaid
Meh. 19: Boreol Weddi Dechreuir am 9.45 y bore Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau boreol.

Ysgol Tregarth

Diolch
Mae disgyblion dosbarth Llywelyn wedi bod yn dysgu am y gofod dros yr hanner tymor diwethaf. Fe ddaeth Mr Derek Roberts draw at ddosbarth Llywelyn ychydig o wythnosau yn ôl i ateb cwestiynau'r disgyblion am y gofod ac arddangos ei deilesgop a'i lyfrau am y sêr. Cafodd y disgyblion amser ffantastig gyda Mr Roberts wrth iddynt arsylwi ar y telesgop anhygoel a dysgu ffeithiau diddorol. Hoffem ddiolch o galon i Mr Roberts am ddod draw atom, gobeithio y dowch yn ôl yn fuan.

Dreigiau Doeth
Mae Dreigiau Doeth Ysgol Tregarth yn edrych yn bwysig iawn yn eu gwisgoedd coch

llachar newydd. Ers wythnosau mae Dreigiau Doeth y Cyfnod Sylfaen a chyfnod Allweddol 2 wedi bod wrthi'n brysur yn cynllunio a chwarae gemau amrywiol ar yr iard. Fel rhan o gynllun Siarter Iaith, swyddogaeth y Dreigiau Doeth yw hybu ac annog eraill i chwarae yn y Gymraeg. Gan eu bod yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri, mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn siacedi a hetiau bendigedig i'r Dreigiau wisgo ar yr iard.

Tre'r Ceiri
Ddydd Gwener 15 Ebrill, mentrodd disgyblion dewr dosbarth Ffrydlas i ben Tre'r Ceiri. Cawsom gwmni'r archeolegydd Anita Daimond a'n harweiniodd gan ein dysgu am

yr olion hynafol. Cafwyd amryw o dasgau i'w cwblhau ar y copa a'r plant wedi gwirioni. Er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn, cafwyd diwrnod arbennig a'r plant yn cael cyfle i ymweld ag un o ryfeddodau Cymru. Ar ddiwedd diwrnod blinedig, dywedodd sawl un y byddai'r ymweliad yn aros yn hir yn eu cof.

Ymweliad â Chastell Caernarfon
Fel rhan o thema'r dosbarth ar gestyll, aeth Dosbarth Idwal ar ymweliad â Chastell Caernarfon. Roedd yn gyfle i weld nifer o nodweddion castell ac roedd pawb wedi gwirioni o weld y tŵr, baneri'r ddraig goch yn chwifio a'r waliau uchel. Cafwyd prynhawn bendigedig ac mae'r ymweliad wedi ein helpu gyda'n gwaith yn y dosbarth.

Ymweliad Haf Llewelyn
Cafodd Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 fore

gwerth chweil yng nghwmni'r awdures Haf Llewelyn. Roedd y disgyblion wedi mwynhau darllen y llyfrau newydd yn ei chyfres 'Ned y Morwr' ac roedd cael ei chlywed yn darllen ei llyfrau a thrafod y cymeriadau yn brofiad arbennig. Diolch yn fawr iawn i Haf Llewelyn am ddod atom ac mae'r disgyblion yn edrych ymlaen yn eiddgar at ddarllen mwy o lyfrau yn y gyfres hon.

Dosbarth Tryfan, Blwyddyn 3 Mr Walton
Cafwyd diwrnod arbennig ar draeth Llydan, Rhosneigr ar 27 Ebrill. Fel rhan o'r thema 'y Trochiad Mawr' mae'r plant wedi bod yn dysgu llawer am gynefnioedd amrywiol greaduriaid, yn arbennig rhai sydd yn byw o dan y dŵr. Diolch yn fawr i Dawn o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru am arwain y diwrnod ac am fod mor hynod o wybodus!'



Y Dreigiau Doeth!

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's
Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref

Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref

Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai

Gyrfa Chwilen

Daeth criw hwyllog at ei gilydd ar nos Fawrth 12 Ebrill i fwynhau noson o chwarae hen ffefryn o'r Chwedegau, sef Gyrfa Chwilen neu Beetle Drive. Gwnaethpwyd elw o £120 at gronfa'r eglwys. Diolch i Liz Bestwick am drefnu'r noson. Edrychwn ymlaen at yr achlysur nesaf, sef Noson Bingo ym mis Mai (gweler isod).

Noson Bingo

Cynhelir noson Bingo yn Neuadd Talgai ar 24 Fai am 7 o'r gloch. Mae llawer o wobrau a phaned o de a bisgedi yn yr egwyl. Dewch am hwyl!

Festri Pasg 2016

Yn y Festri Pasg a gynhaliwyd ddydd Sul 17 Ebrill, tynnwyd sylw at yr ymgyrch i godi arian tuag at gostau cynyddol rhedeg yr eglwys, cynnal y fynwent ac atgyweirio ein hadeilad hanesyddol. Derbynnir yn ddiolchgar unrhyw roddion yn daladwy i "Sant Tegai, Llandygai"

trwy law'r Ficer, y Parch John Matthews, Y Ficerdy Pentir, Bangor. LL57 4YB neu'r wardeiniaid Edmond Douglas Pennant, Ann E. Williams a'r Ysgrifenyddes Nerys Jones. Ailetholwyd y Cyngor Plwyf Eglwysig a'r swyddogion ar gyfer 2016 - 2017 ond braf yw croesawu aelod newydd i'r Cyngor, sef John Bagnall.

Dymuniadau gorau

Cyfarchion pen-blwydd i ddwy o'n cynulleidf, sef i Hazel Jones ac i Avril Williams. Mae aderyn bach yn sibwrdd bod Hazel wedi dathlu pen-blwydd arbennig - gobeithio eich bod wedi mwynhau'r achlysur, Hazel!

Mae nifer o aelodau'r eglwys yn disgwyl triniaeth yn yr ysbyty. Pob dymuniad da iddynt am adferiad buan.

Amseroedd gwasanaethau Sant Tegai

Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y bore.

Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y bore.

Llwyddiant Ynni Ogwen

Hoffai Ynni Ogwen ddiolch o galon i bobl Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau am eu cefnogaeth aruthrol i fenter gymunedol Ynni Ogwen. Agorwyd cynllun cyfranddaliadau cymunedol Ynni Ogwen ar 27 Chwefror ac o fewn 2 fis union roedd gwerth £456,850 o gyfranddaliadau wedi eu prynu. Y mwyafrif helaeth gan unigolion lleol o ardal Dyffryn Ogwen. Mae hwn yn swm aruthrol gan ei fod yn golygu na fydd Ynni Ogwen Cyf yn gorfod cael benthyciad banc i dalu am gostau adeiladu'r cynllun hydro. Mae hyn yn golygu y bydd y cynllun dan berchnogaeth pobl leol a bydd y llog hefyd yn aros o fewn yr economi leol.

Meddai Meleri Davies, un o Gyfarwyddwyr Ynni Ogwen Cyf. "Mae'r gefnogaeth i'r cynllun hydro cymunedol yma wedi bod yn anhygoel ac mae'n galonidd gweld pobl yn dod at ei gilydd i gefnogi menter gymunedol arloesol fel hon. Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch o galon i bawb sydd wedi buddsoddi a'n helpu ar hyd y daith."

Gyda'r cyfranddaliadau wedi eu prynu, bydd y cynllun hydro yn dechrau cael ei adeiladu ym mis Mehefin a'r bwriad yw cwblhau'r adeiladu erbyn dechrau 2017. Cyn diwedd Mai, bydd pob cyfranddaliwr yn derbyn tystysgrif aelodaeth a gwahoddiad i gyfarfod cyffredinol blyneddol cyntaf Ynni Ogwen. Os hoffech wybodaeth am y cynllun a'r camau nesaf, mae croeso i chi alw heibio swyddfa Partneriaeth Ogwen ar y Stryd Fawr am sgwrs neu ewch i www.ynniogwen.cymru

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau

1972-1974

- 1972

- 01/1972: Tynnu Capel Salem (A), Carneddi, i lawr.
 - 01/1972: Sefydlu cangen o Ferched y Wawr ym Methesda.
 - 22/09/1972: Sefydlu Cangen Dyffryn Ogwen o Adfer.
 - 17/03/1972: Goronwy Roberts (Yr Arglwydd Goronwy-Roberts) yn traddodi ei ddarlith 'Y Dyffryn Harddaf yn y Byd' yng Nghapel Jerusalem. (Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda). Cyhoeddwyd y ddarlith yn llyfryn yn 1985.
 - Agor Clwb Criced newydd Bethesda.
 - Sefydlu Pwyllgor Gofal Dyffryn Ogwen gan Gyngor Dinesig Bethesda.
- 1973

- 21/03/1973: Dr Glyn Penrhyn Jones yn traddodi ei ddarlith 'O'r Siop: Ychydig o Atgofion' yng Nghapel Jerusalem (Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda). Cyhoeddwyd y ddarlith yn llyfryn yn 1973.
 - 16/03/1973: Marw J. O. Williams, llenor a chydawdur *Llyfr Mawr y Plant*. Awdur y gweithiau a ganlyn hefyd: *Storiau a Sgrifau*, 1933; *Straeon Wil*, 1933; *Tua'r Gorllewin ac Ysgrifau Eraill*, 1938; *Corlannau*, 1957. Claddwyd ym Mynwent Coetmor, 21/03/1973.
 - 05/1973: Y Clwb Pêl-droed yn cael ei adeiladu ar safle'r hen orsaf reilffordd.
 - 12/10/1973: Marw Dr Glyn Penrhyn Jones, Tyddyn Elen, Bontnewydd.
 - Agor y Gwaith Carthffosiaeth newydd Cyngor Dinesig Bethesda yn Nôl-goch gan y Cynghorydd Gwilym Morgan Pritchard.
- 1974

- 31/03/1974: Cyngor Dinesig Bethesda yn dod i ben o ganlyniad i ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru a Chyngor Bwrdeistref Arfon yn dod i fodolaeth.
 - 03-04/1974: Sefydlu Canolfan Gynghori (C.A.B.) ym Methesda ar ffurf uned deithiol a safai o flaen y Swyddfa Bost (Siop SPAR yn 1997) bob dydd Mawrth o 10.00 a.m. tan 12.00 p.m.
 - 01/04/1974: Cyngor Cymuned Bethesda yn dod i fodolaeth.
 - Ysgol Dyffryn Ogwen yn rhoi'r gorau i ddefnyddio adeilad Ysgol y Cefnfaes - union gan mlynedd cyn hynny yr agorwyd Ysgol y Cefnfaes yn y lle cyntaf.
 - 02/09/1974: Aelodau o Gangen Dyffryn Ogwen o fudiad Adfer yn penderfynu sefydlu papur bro: Ieuan Wyn, Derfel Roberts, Mary Edwards, Eleri Ifan, Bryn Trefor, Dilwyn Pritchard, Dafydd Arfon Jones, Huw Williams, Alun Glyn Jones, Gareth Fychan, Alan Puw.
 - 09/09/74: Marw Arthur Lewis Williams, 1 Stryd Brynteg, Bethesda, ym Mhlas Ogwen. Arferai gario nwyddau o orsaf reilffordd Bethesda i fasnachwyr lleol.
 - 14/09/74: Chwaraewyd y gêm rygbi gyntaf ym Methesda - Bethesda o, Cymry Caerdydd 45.
 - Tynnu Capel Treflys i lawr. Ymddangosodd adroddiad ar dudalen flaen rhifyn cyntaf *Llais Ogwan*.
 - Hydref 1974: Cyhoeddi rhifyn cyntaf *Llais Ogwan*. Sefydlwyd y fenter gan Bwyllgor Lleol Adfer.
 - 09/10/1974: Agor estyniad newydd i Ysgol Dyffryn Ogwen - adeilad 'amlbwrras' ac ynddo ddigon o ystafelloedd i ddod â holl blant Ysgol Dyffryn Ogwen dan yr unto am y tro cyntaf erioed. Thomas Morris, Llanllechid, Cadeirydd olaf Pwyllgor Addysg Sir Gaernarfon, a agorodd yr estyniad yn swyddogol a chadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Cyril Parry, Cadeirydd cyntaf Cyngor Sir Gwynedd. Roedd saith o ystafelloedd dosbarth yn yr estyniad newydd, ystafelloedd celf a chreffft, gwyddor tŷ a gwnïo, llyfrgell, canolfan i'r chweched dosbarth, ystafelloedd cotiau a thoiledau, ac ystafell staff.
 - 14/10/1974: Marw Ifor Jones, Paris House, a gadwai Siop Lôn Pab, fel y gelwid Paris House gan bawb. Cedwid y siop gan Owen Jones, ei dad, o'i flaen. Roedd arwydd 'enwog' ar y cloc ar y wal y tu mewn i'r siop: 'Un pris ac arian parod'. Bu ei wraig, Gwyneth Maud (Griffith gynt), Llys Derwen, Garneddwen, farw 06/12/96 yn 96 oed.
 - 12/1974: Cyfarfod cyhoeddus yn Festri Capel Pen-y-groes, Tregarth, i drafod sefydlu Ysgol Feithrin.
 - Sefydlu Clwb Rygbi Bethesda.

I'w barhau

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550karena@agoriad.org.uk*Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)*

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

**BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)**Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
LloriauArbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Ambwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782Cuernarfon
(01248) 673616Pwllheli
(01758) 703000**Londis Bethesda**

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS**Paentiwr****Papurwr****Teilsiw****Symudol: 07747 628650****Ffôn: 01248 600995****Malinda Hayward
(Gwniadwraig)**Awel Deg
Penygroes, Tregarth.Am unrhyw waith gwnio
- trwsio, altro ac ati -**Ffoniwch**
01248 601164**Cerbydau Penrhyn****CABIAU A BYSIAU MINI****Ffôn: (01248) 600072****Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau****Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru**

Sefydlwyd

1969

**m.hughes
a'i fab****CONTRACTWYR TOI**

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.***L. Sturrs
a'i feibion**

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR**Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda****Ffôn: 600953**lsturrs@googlemail.com**BARBWR OGWEN**Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison**TEMPLE MORRIS A'I FAB**Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.**07770 900531****01248 600282**jtemplemorris@btinternet.com**Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer****Ronald Jones**Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

SAMARIAIDMac
Llinell Gymraeg**0300 123 3011**er gwel bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhian ac Idris , Ciltrefnus, ar ddod yn nain a thaid i ddwy wyres fach o fewn ychydig amser i'w gilydd. Ganed Sophia Faye i'w merch, Mared, a'i phartner, Guto, a ganed Ava Grace i'w merch, Manon, a'i phartner, Warren. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd fel teulu. Mae cael un fach i wirioni arni yn dda, mae cael dwy yn wych!

Cofion

Rydym yn anfon ein cofion at Megan Williams, Ffordd Gerlan, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Llandudno. Bellach mae yn ei hôl adref. Rydym yn falch iawn o'ch cael yn eich ôl gyda ni yn y Gerlan, ac yn dymuno gwellhad buan i chi.

Geni

Llongyfarchiadau i Nerys a Kevin, Ffordd Gerlan, ar enedigaeth mab bychan, Rheon, sy'n frawd i Cynan. Rydw i'n siŵr fod yr holl deulu wedi gwirioni efo'r babi newydd

Nain a thaid

Rydym yn llongyfarch Dewi a Gwen Griffith, Ciltrefnus, ar ddod yn daid a nain unwaith eto, gyda genedigaeth Rheon i'w merch Nerys, a'i phartner, Kevin. Llongyfarchiadau mawr ichi!

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo â Simon ac Yvonne Dignam, a'r plant, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth ddiweddar o golli nain a hen nain annwyl iawn, y diweddar Mrs Williams, Ffordd Stesion, Bethesda.

Rydym yn cydymdeimlo â Gwion a Megan Hughes, a'r plant, Ffordd Gerlan, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, a oedd yn trigo yn Nyffryn Nantlle.

Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau mawr i Cai Jones, Lle Braf, Ffordd Abercaseg, ar lwyddo yn ei brawf gyrru yn ddiweddar. Da iawn, chdi, Cai!

Profedigaeth

Rydym yn cydymdeimlo â Steffan a Sian, a'u mab, Jac, Rallt Uchaf, yn eu profedigaeth o golli nain a hen nain annwyl, y diweddar Mrs Betty Whitehead, o Dregarth.

Gwella

Rydym yn falch o weld Dewi Griffith, Ciltrefnus, yn ei ôl adref ar ôl treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth i gael clun newydd. Rydym yn gobeithio dy weld yn brasgamu ar hyd yr ardal unwaith eto yn fuan, Dewi!

Run Sbit

Linda a Caren Brown o'r Gerlan, oedd sêr y gyfres deledu hynod o lwyddiannus, Run

Sbit, a fu'n rhedeg ar S4C yn ddiweddar. Roedd llawer iawn o ganmol ar y gyfres hon fel un ddoniol dros ben. Er ei bod wedi dod i ben erbyn hyn, gallwn edrych ymlaen at ail gyfres. Rhagorol, Linda a Caren! Llongyfarchiadau mawr ar eich llwyddiant!

Triniaeth Ysbyty

Rydym yn anfon ein cofion at Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan, a dderbyniodd driniaeth i'w lygad yn yr ysbyty yn ddiweddar. Braf iawn yw eich gweld yn ôl adref, ac yn cerdded yr ardal

Cofion

Anfonwn ein cofion cynnes at Jane Jones, Gwernydd, sydd heb fod yn teimlo'n hwylus yn ddiweddar. Rydym yn cofio atoch yn fawr iawn.

Llechi

Yn ddiweddar cafwyd cynhyrchiad arbennig yn Pontio, i agor ochr gymunedol y theatr. Roedd y cynhyrchiad a oedd yn cynnwys cerddoriaeth wreiddiol, a elwid 'Llechi', yn adlewyrchu diwylliant ardaloedd y llechi, ac yn cynnwys cyfraniadau gan nifer o dalentau Dyffryn Ogwen, gan gynnwys gbach, Côr y Penrhyn, a Lleuwen Steffan, ac roedd cyfraniadau gan Ieuan Wyn a Dewi Glyn. Rydym ni, yn y Gerlan, yn hynod o falch mai Lisa Jên, o'r Gwernydd, a oedd wedi rhoi'r cyfan at ei gilydd, ac rydym yn ei llongyfarch yn fawr ar lwyddiant y cynhyrchiad. Da iawn chdi, Lisa.

Rydym, hefyd, yn dymuno'r gorau i Lisa, Martyn, a gbach ar eu taith o gwmpas Prydain yn cynnal gigiau i hybu eu halbwm diweddaraf, 'Anian'. Bydd gbach yn y Galeri, Caernarfon, ar 27 Mai, ond bydd raid ichi frysio i gael tocyn, gan fod y tocynnau yn gwerthu'n gyflym.

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Nyth Y Gân

Tafarn Tŷ'r Delyn

(Stryd Fawr, Bethesda erstalwm)
Hen dalent fu'n Nhŷ'r Delyn, a thynnwyd
Ei thannau gan fechgyn;
Yn Nhŷ Hen bu meithrin hyn
Cyn craith anrhaith y Penrhyn.

Egin

Yn ein herwau mae'n aros mor oeraidd,
Mor hir cyn ymddangos;
Yma'n awr cilio mae nos,
Y mae'r egin mor agos.

Poli Parot

Medrus fu hwn am adrodd y geiriau
Rhagorol a glywodd;
Er pob rheg a fynegodd
Yn ei fyd roedd wrth ei fodd.

Dafydd Morris

Gareth Williams Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech, Garnedd Lwyd
7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Diolch

Diolch yn fawr iawn i Dilwyn Pritchard, 2 Bron Arfon, am ei waith fel gohebydd Rachub a Llanllechid. Bu’n drylwyr a dyfal yn dod â newyddion yr ardal i ni am flynyddoedd lawer. Bydd Angharad Beech, Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw yn mentro’i olynu. Os oes gennych unrhyw newyddion, hysbys neu gyfarchion, anfonwch nhw i’r cyfeiriad uchod, neu e-bostiwrch angharadllwyd@hotmail.com

Capel Carmel

Fore Sul y Blodau, bu’r plant yn gwrando ar hanes Iesu Grist yn teithio i Jerusalem ar gefn ebol gwyn, yna gwnaethant weithgareddau amrywiol yn ymwneud â’r stori. Ar ddiwedd yr Ysgol Sul dosbarthwyd Wy Pasg siocled a chomig y Pasg i bob plentyn. Ddydd Gwener y Groglith bu rhai o aelodau Clwb Dwylo Pysur yn gwnïo siâp croes fechan gan ddefnyddio pwyth croes, bu eraill yn dewis rhai o emynau’r Pasg i’w printio.

Bedydd

Bedyddiwyd Seirian Rhodd, merch i Mared ac Alan Jones, Stryd Glanrafon, Bethesda, brynhawn dydd Sul, 24 Ebrill gyda’n gweinidog, Y Parchedig John Pritchard yn gwasanaethu, ac Owain Morgan wrth yr organ. Braf oedd cael estyn croeso iddynt ac i’r teulu i gyd. Hoffai Mared ac Alan ddiolch i bawb am eu dymuniadau gorau.

Trefn Gwasanaethau

Mai 22: Y Gweinidog (5.00)
Mai 29: Miss Nerys Jackson (5.00)
Mehefin 05: Y Gweinidog – Cymun (5.00)
Mehefin 12: Parchg Gwynfor Williams (5.00)
Mehefin 19: Oedfa (5.00)

Yr Ysgol Sul am 10.30yb,
Clwb Dwylo Pysur – Nos Wener am 6.30yb
Te Bach – dydd Llun, 23 Mai . 2.30 – 4.00
Croeso cynnes i bawb.

Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion at yr aelodau sy’n sâl gartref, ac at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, yn eu plith Mrs Gwenda Jones, Glanffrydlas.

Cydymdeimlad

Mrs Eirian Pritchard

Bu farw Mrs Eirian Pritchard (Bryn) ar ddiwedd mis Chwefror a hithau yn 89 mlwydd oed. Bu’r gwasanaeth, dan ofal y Parchedigion John Pritchard a Dafydd Coetmor Williams yng Nghapel Carmel. Dyma ran o deyrnged a dalwyd iddi yn ystod y gwasanaeth; Fe aned Eirian ym Mraichmelyn ac yno cafodd fagwraeth hapus iawn. Mynychodd ysgolion Pen-y-bryn a

Dyffryn Ogwen cyn dilyn cwrs dysgu yn y Normal, Cwrs ‘Domestic Science’ fel yr oedd Eirian yn cyfeirio at y pwnc yn gyson. Yno, yn fyfyrwraig gydwybodol yr enillodd wobr, ‘excellence in Housecraft.’ Enillodd £7 10 swllt fel gwobr. Wedi pasio’r cwrs cafodd swydd yn Lerpwl gan dreulio cyfnod hapus yn ardaloedd, Walton, Fazakerley ac Aintree. Treuliodd gyfnod hapus yn gweithio yn y Northcote Domestic Science Centre ac yna yn Warbreck Modern School. Melys oedd ei hatgofion am lannau Merswy. Symudodd i Sir Fôn pan dderbyniodd swydd Pennaeth Adran yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch ac yna Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Priododd ag Amwel ym 1961 ac ymgartrefu ym Mryn Hafod y Wern.

Ymaelododd yng Ngharmel lle treuliodd flynyddoedd hapus a gweithgar yn gwasanaethu’r eglwys. Bu’n athrawes Ysgol Sul am gyfnod maith a bu’n ffyddlon i wahanol gymdeithasau’r capel. Roedd Eirian yn dal yn ‘dipyn o Wesla’ serch hynny gan fynychu ambell i wasanaeth ym Methesda. Ganwyd Gareth yn 1962 a threuliwyd cyfnod hapus ar y tyddyn wrth odre Moel Wnion. Mynychai Eirian nifer o gymdeithasau lleol fel Merched Y Wawr gan lenwi nifer o swyddi o fewn y gangen. Bu’n beirniadu sawl tro yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen, lle bu Amwel yn Llywydd, a bu’r ddau yn ffyddlon yng nghyfarfodydd Cymdeithas Archeoleg leol gan fwynhau nifer o dripiâu difyr. Cadwai gysylltiad clos gyda’i theulu, Elian ac Emyr yn Erw Fair a Megan a Clement ym Mangor. Daeth tro ar fyd pan dorrodd iechyd ei mam. Tyner a chariadus fu’r gofal a roddodd iddi yn ystod ei gwaeledd. Derbyniodd hithau lawdriniaeth yn Ysbyty C & A yn 1963 gan dreulio cyfnodau yn Gobowen dros y blynyddoedd. Yn 2002 bu farw Amwel a phenderfynodd symud yn ôl i Res Elfed, gan hwylyso ambell i daith bws i Fangor neu Landudno. Roedd Eirian yn nain annwyl iawn a chymerai ddiddordeb mawr yn hynt a helynt ei hwyrion a’i hwyresau gan ymfalchïo yn eu llwyddiannau. Llethodd hen salwch cas hi yn ystod 2015 a bu rhaid symud i Blas Ogwen lle cafodd ofal arbennig. Mawr yw diolch y teulu am y gefnogaeth a dderbyniodd yno a chan gyfeillion a chymdogion yn y blynyddoedd cynt. Mae heddiw yn ddiwrnod trist ond rydym fel teulu yn gobeithio bod yr atgofion melys yma yn ein gadael i ni gofio Eirian fel rhywun tyner, medrus ac annwyl iawn.

Mrs Jane Parry

Yn 97 mlwydd oed bu farw Jane Parry (Jane Tŷr Ysgol) ar 4 Mawrth. Bu’r angladd yng ngofal y Parchedigion John Pritchard a Dafydd Coetmor Williams yng Ngharmel ac yna yn yr Amlosgfa.

Un o deulu y Rowlands Rachub oedd Mrs Parry, ia, Rachub, ond yn Llanbedr y Cennin y cafodd ei geni cyn i’r teulu symud i Rachub pan oedd hi’n ifanc iawn. Lôn Groes oedd ei chartref ac oddi yno y byddai’n mynd yn ffyddlon i Gapel Carmel, oddi yno hefyd y cychwynnai i Fangor i’w swydd fel Nyrs Auxiliary yn y C&A am flynyddoedd.

Priododd gydag Ifan Elwyn a ganwyd dau o blant iddynt Carole ag Elwyn. Fe’i llethwyd gan afiechyd cas a bu’n rhaid mynd i gartref Maesincla yng Nghaernarfon. Mawr yw diolch y teulu am y gofal a gafodd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar yr achlysur trist yma. Ar ddiwrnod yr angladd cyflwynodd Richard Lloyd Jones yr englynion yma fel cof amdani hi a’i charedigrwydd pan arferai fynd i Lôn Groes i chware gydag Elwyn, y ddau yn yr ysgol gyda’i gilydd.

Er cof am Jane Parry, 37 Lôn Groes, Rachub.

Oer ein dydd, ond geiriau’n dod – i gyfarch
i gofio gwraig hynod.
Bro a Duw ei byw a bod
a’i gorchwyl, o hyd gwarchod.

Ar Lôn Groes hael ei chroeso – i’r hogia’
drws ar agor yno.
Yn aros, ein mam dros dro
hi’n y blaen, byth yn blino.

Jane, mor ystwyth yn pwytho – ac edau
fu’n gadarn yn uno.
Wrth law mewn braw rhag breuo,
nodwydd o fraint frodiodd fro.

I’w gŵr a’i phlant ni chaed gwell – ‘run
annwyl,
brenhines ystafell.
“Gwynt lawr Nant” fydd ei mantell,
nid yw mam yn mynd ymhell.

Cofion

Anfonwn ein cofion at Alice Jones, Tan y Garth a Cecil Jones (Bryn) y ddau wedi gorfod mynd i gartref dros yr wythnosau diwethaf yma.

Llawdriniaeth

Mae Michael Williams Lôn Groes wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio bod yr iechyd yn gwella erbyn hyn.

Clwb Llanllechid

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod o’r Clwb a gynhaliwyd ar 7 Ebrill.

Dymunwyd yn dda i Margaret, merch Arfona sydd heb fod yn dda ei hiechyd. Llongyfarchwyd Catrin, wyres i Betty ar achlysur ei dyweddiad. Cydymdeimlwyd â theulu Mrs Williams (Gwynfryn) ar achlysur trist marwolaeth Mrs Williams yn 97 mlwydd oed. Methodd y gŵr gwadd â bod yn bresennol ac felly fe gynhaliwyd cystadleuaeth rhwng tîm A a B. Cyfartal oeddynt ar ddiwedd y prynhawn. Rhoddwyd y wobr lwcus gan Rhiannon. Mwynhawyd y te a baratowyd gan Margaret Owen ac Arfona.

Eisteddfod yr Urdd

Dymuniadau gorau i Gwydion Rhys ar gystadleuaeth y Soddgrwth ac i Stephanie Owen sydd yn rhan o gôr hŷn Ysgol Dyffryn Ogwen yn Eisteddfod y Fflint ddechrau Mehefin.

Pen-blwydd Arbennig

Pen-blwydd hapus i Selwyn Jones, Bron Arfon ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 mlwydd oed. Hefyd Gareth Jones, Ffordd Llanllechid yn hanner cant, a'i fab Twm yn 21 mlwydd oed yn yr un wythnos.

Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Sian Bryn, Bron Arfon ar fod yn llwyddiannus yn ei phrawf gyrru.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Catrin Williams, Bryneithin, Llanllechid ar ei dyweddiad ag Arthur Thomas o Bentrefoelas. Pob hapusrwydd i'r dyfodol i chi'ch dau.

Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus i Gruffudd Llwyd Beech, 7 Llwyn Bedw yn 5 oed ar 5 Mai gan Mam, Dad a Gwenno!

Clwb Gwawr

Aeth Clwb Gwawr Genod Pesda i'r Galeri fis diwetha' i weld drama'r Theatr Genedlaethol - 'Mrs Reynolds a'r Cena bach'. Roedd canmoliaeth uchel i'r cynhyrchiad, ac yn enwedig i berfformiadau Siw Hughes a Siôn Emyr. Bydd Clwb Gwawr fis Mai yn mynd i Wyl Fwyd Caernarfon i weld pa ddanteithion fydd yno!

Clwb Hanes Rachub

Croesawyd Dr John Elwyn Hughes i Glwb Hanes Rachub i sgwrsio am ei atgofion a'i brofiadau. Cafwyd sgwrs hynod ddifyr, llawn hiwmor am fagwraeth gyffredin mewn pentref bach yn Nyffryn Ogwen. Portreadwyd bywyd ym Mraichmelyn, - mewn cyfnod braf, pan nad oedd teclynau fel teledu, ffonau symudol a chyfrifiaduron yn rheoli bywydau plant, dim ond direidi diniwed a chymdeithasu hwyliog yn ogystal ag ambell i ddigwyddiad pur ddifrifol! Roedd amryw o'r aelodau'n cael eu hatgoffa o ddigwyddiadau cyffelyb yn eu bywydau hwythau! Diolch am noson wych arall! Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 25 Mai, - pan fyddwn yn trafod bywyd y gwneuthurwr awyrennau o Dyddyn Canol, Rachub, William Elis Williams.

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Côr y Penrhyn

Cyflwyniad arloesol gyda 9Bach yn Pontio

Yn Theatr Bryn Terfel, Canolfan Pontio ym Mangor, cymerodd y côr ran yn un o'r cyflwyniadau mwyaf arloesol, os nad y mwyaf arbrofol, a welwyd ar lwyfan unrhyw theatr yng Nghymru erioed. Gyda 9Bach, y grŵp gwerin cyffrous o'r Gerlan yn arwain, llwyfannwyd **'Lle Chi'** Neu **'Llechi'** oedd yn rhoi blas o hanes, daearyddiaeth a phobl Bethesda i gynulleidfa ehangach trwy gyfrwng miwsig, dawns, barddoniaeth, lluniau a darlenniadau.

Roedd y cyfan yn ennyn emosiynau cryf gan mor iasol neu atmosfferig oedd y seiniau a grëwyd gan 9Bach a chan artistiaid fel John Ogwen, Siân James, Lleuwen Steffan a Mirain Haf heb sôn am Martin Dawes y bardd di-Gymraeg sy'n byw ym Methesda ac wedi dod i garu'r fro yn angerddol.

Cyfrannodd y côr yn sylweddol at lwyddiant y cyflwyniad gan i'n harweinydd, Owain Arwel, chwarae rhan bwysig yn yr holl beth trwy drefnu llawer o'r caneuon lle'r oedd y côr yn creu cyfeiliant i ganeuon yr unawdwyr.

Gwthio'r ffiniau

"Cydnabyddiaeth i orffennol chwarelyddol ardal Bethesda a'r harddwch sydd o'i chwmpas, gan edrych ar yr un pryd ar sut y gall y dref ffurfio ei hunaniaeth ei hun, ar gyfer heddiw a'r dyfodol, a beth mae'n ei olygu i fyw yno yw'r cyflwyniad," yn ôl Lisa Jên Brown, prif leisydd a chyfansoddwr caneuon 9Bach.

Ychwanegodd, "Mae caneuon y band wedi eu dylanwadu'n fawr gan Fethesda,"

ac fe'i hysbrydolwyd i ysgrifennu 'Ffarwel' a 'Llwybrau' ar ôl i Ieuan Wyn roi llyfr o gerddi'r chwarelwyr iddi.

Cyfrannodd y ffotograffydd lleol, Dewi Glyn a'r ddawnswraig Kate Lawrence yn fawr at lwyddiant y noson a bu rhan y côr yr un mor allweddol â'r cyfraniadau eraill. Yn wir, cyhoeddodd Mr a Mrs O G Jones o Erw Las mai'r cyflwyniad yna oedd y peth mwyaf cerddorol iddynt ei glywed erioed a bu sawl aelod arall o'r gynulleidfa'n hael iawn eu clod gyda sylwadau fel, "cyffrous iawn," profiad anhygoel," ac "emosiynol tu hwnt" yn britho'r sgysiauwedi'r perfformiad.

Ychwanegodd Lisa, "Mae Bethesda a'i hanes yn gymaint rhan o fy mywyd i, ac roeddwn wedi edrych ymlaen at ddefnyddio Theatr Bryn Terfel er mwyn archwilio nid yn unig y gorffennol ond ble mae'r ardal yn mynd rwan hefyd, sut mae'r lle wedi newid a sut mae cerddoriaeth yn esblygu fel rhan o hynny."

Ymlaen ac i fyny

Mae rhaglen haf y côr ar fin cychwyn ac fe fyddwn yn perfformio mewn sawl canolfan dros yr wythnosau nesaf gan gynnwys Henllys, Biwmares a Sant Ioan, Llandudno yn ogystal â'r Swae Fawr yn yr un dref. Does dim rhaid i chi deithio ymhell o'ch bro i glywed perfformiadau gan un o gorau mwyaf arloesol a chyffrous Cymru, felly dewch draw i brofi'r wefr o wrando ar leisiau cyfoethog yn cyflwyno caneuon i drefniannau ffres a hynny mewn harmoni perffaith.

Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Haydn Davies o Fethesda a ymddeolodd fel Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni beth amser yn ôl.

1. **Be' ydy dy enw llawn?** - Lawrence Haydn Davies.

2. **Oed?** - 62.

3. **Gwaith?** - Wedi ymddeol.

4. **Lle wyt ti'n byw?** - Cilfodan, Bethesda.

5. **Un o le wyt ti'n wreiddiol?** - Cenarth, Sir Aberteifi sy'n enwog am ei rhaeadr; am gaws Cenarth ac am y tenor Washington James.

6. **Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** - Brwdfrydig, hapus, egniol.

7. **Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Pum mlynedd.

8. **Pa lais wyt ti?** Bariton.

9. **Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Wedi bod yn aelod o Hogia'r Ddwylan rai blynyddoedd yn ôl ac ar ôl gorffen dyfarnu rygbi roeddwn i eisiau ymuno efo côr a pha gôr gwell na'r côr lleol?

10. **Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Gwahoddiaid.

11. **Pwy yw dy hoff ganwr/gantores?** Eric Clapton.

12. **Beth yw dy farn am ganu pop?** Dwi'n hoffi canu pop ond y 60au a'r 70au yw fy hoff gyfnod.

13. **Oes gen ti atgof o ryw ymweliad efo'r côr?** Mae pob taith gyda'r côr wedi bod yn wych ond roedd canu yn Stadiwm y Mileniwm am y tro cyntaf yn fythgofiadwy.

14. **Pa ddiddordebau sydd gen ti y tu allan i'r Côr?** Cadw'n heini, golff a'r wyrion a'r wyresau.

15. **Oes yna ryw beth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Parhau i gynllunio cyngherddau ym Mhrydain bob blwyddyn a thaith dramor bob rhyw bedair blynedd.
-

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



21 Mai – Cefnfaes – Gorffwysfan
28 Mai – Caffi Coed y Brenin – Clwb Peldroed Mynydd Llandygai
25 Mehefin – Neuadd Ogwen – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
09 Gorffennaf – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
10 Medi – Cefnfaes – Sefydliad y Merched Carneddi
24 Medi – Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracey Smith.
22 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
29 Hydref – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir
12 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
19 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.
26 Tachwedd – Cefnfaes – Plaid Cymru
26 Tachwedd – Neuadd Ogwen – Plaid Lafur (Ffair Nadolig)

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

AR LOG

YN NEUADD OGWEN

Nos Wener, 17 Mehefin am 7.30

Dewch i ddathlu penblwydd Ar Log yn 40 oed!

Ffurfiwyd Ar Log yn Awst 1976 yn arbennig ar gyfer perfformio mewn gwyl yn Lorient, Llydaw. Yn dilyn yr wyl, penderfynwyd, ar anogaeth y Dubliners, i barhau, ac i geisio ennill eu bywoliaeth yn teithio. Llwyddwyd i wneud hyn am saith mlynedd gan deithio dramor yn rheolaidd am naw mis o bob blwyddyn.

Maent wedi perfformio mewn un-ar-hugain o wledydd ar draws Ynysoedd Prydain, Ewrop a Gogledd a De America gan hyrwyddo cerddoriaeth a chaneuon Cymru. Rhwng 1978 a 1996 llwyddodd Ar Log i ryddhau deg albwm a dwy sengl.

Mi fydd Dewi Pws yn westai arbennig ar y noson.

Marchnad Ogwen

Mehefin 11eg
Sioe Dyffryn Ogwen

Gorffennaf 9ed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Awst 13eg
Neuadd Ogwen. 9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Creffttau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

43ain
SIOE AMAETHYDDOL
DYFFRYN OGWEN

SADWRN 11 MEHEFIN 2016
CAEAU RYGBI, BETHESDA

Cystadlaethau
Ceffylau, Cwn, Defaid, Dofednod, Adran Cartref, Ffyn Adloniant, Hen Gerbydau, Mabolgampau, Stondinau, Rasmus 'Terrier a Lurcher' gyda Dei Bando

Mynediad
Oedolion: £4
Pensiynwyr: £2 Plant: £1
www.sioedyffrynogwen.co.uk

GIG SIOE
DYFFRYN OGWEN
yn Neuadd Ogwen

SADWRN 11 MEHEFIN 2016
am 7.30

BAND PRES
LLAREGGUB

Tocynnau: £10

RHAG-HYSBYSIAD

SÊL PEN BWRDD
yn Llys Dafydd
(Neuadd Ogwen os yn glawio)

Bore Sadwrn, 30 Gorffennaf
am 9:30
£5 y bwrdd

Rhagor o wybodaeth:
07789 916166 - 01248 600872

CANOLFAN
CEFNFAES

GYRFA CHWIST
Mai 24 a 31
Mehefin 14 a 28
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN
CEFNFAES

BORE COFFI
Gorffwysfan
Sadwrn, 21 Mai **10:00 - 12:00**
Mynediad: £1

CANOLFAN
CEFNFAES

CYFARFOD BLYNYDDOL
PLAID LLAFUR
DYFFRYN OGWEN
2 MEHEFIN 2016 AM 7.30

CYFARFOD BLYNYDDOL
CANOLFAN CEFNFAES
yng Nghefnfaes ar

Nos Fercher, 15 Mehefin
am 7.00pm

Croeso cynnes i bawb

CAFFI COED Y BRENIN

BORE COFFI
CLWB PÊL DROED
MYNYDD LLANDYGAI

Sadwrn, 28 Mai
10:00 - 12:00 Mynediad: £1

YSGOLDY MAES Y GROES
TALYBONT

TE MEFUS
SADWRN, 18 MEHEFIN
AM 2 O'R GLOCH
MYNEDIAD: £2.50
ELW AT EGLWYS ST. CROSS




Diwrnod o Hwyl yn Ogwen

Dydd Iau, 2 Mehefin, 11am - 4pm

Dewch i drio gweithgareddau awyr agored beiddgar fel dringo creigiau neu dramwyo tyroleaidd yn rhad ac am ddim. Yn ogystal a hynny bydd cyfle i herio eich hun i ddod o hyd i'r esgid aur a llawer mwy. Ar ôl yr holl antur mi fyddan ni yn gorffen gyda thaith i Gwm Idwal am 3pm i ymlacio ar lan Llyn Idwal gyda cherddoriaeth fyw draddodiadol.

Ymunwch â'r gweithgareddau ym Mwthyn Ogwen o 11am ymlaen.



BARA CAWS

yn cyflwyno

Allan o Diwn - Emyr 'Himyrs' Roberts

(Neuadd Ogwen, Nos Wener, 20.05.16 am 7.30)

Sioe yn llawn, nostalgia, hwyl, dychan, canu a chwerthin yw cynhyrchiad diweddaraf Bara Caws - 'ALLAN O DIWN', a fydd yn teithio cymunedau Cymru o'r 4ydd o Fai hyd yr 2ail o Awst (gan ddiweddu yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni). Mae'r cynhyrchiad gan Emyr 'Himyrs' Roberts, sy'n un o ddynwaredwyr gorau Cymru, yn dilyn ei hanes o fod yn ddisgybl 6ed dosbarth oedd 'allan o diwn' â'r byd a'i bethau, at sefydlu un o grwpiau eiconig yr '80au, y Ficar, a'i galluogodd i wireddu ei freuddwyd, ffeindio'i lais, a thro'i'n berfformiwr proffesiynol.

Cawn gyfarfod a 'wynebau cyfarwydd' o'r sîn roc, ddoe a heddiw. Mi fydd yn dod ag atgofion yn ôl i'r rhai oedd yn ifanc yn yr 80'au ac yn agoriad llygaid i'r rhai sydd rhy ifanc i gofio'r cyfnod.

Mi fydd yna fand byw yn teithio gyda'r sioe sydd yn cynnwys dau o feibion y dramodydd, sef Aled Emyr ac Ifan Emyr. Y trydydd cerddor yw Carwyn Rhys. Cyfarwyddir 'Allan o Diwn' gan Betsan Llwyd, cyfarwyddwr artistig Bara Caws.



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda, Gwynedd LL57 3NE

ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



SIOP OGWEN

Cardiau, CD'S, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVD's, Golwg, Llyfrau, Llundiau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhwch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen) partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485

Y BWTHYN TE pen y ceunant isaf

LIWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF- BWTHYN A ACERAGRYD AR WAELOCION LUNYER YR WYDDFA (D LLANBERIS) YN YSTOD Y 1800. GWIRIF CEMACH OROESO ARBENNIG YMA, YN OGYSTAL A GOLYOFREYDD GWYCH DROB LLYN PLOARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYNN

DIOGYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)

MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN - YN ADDAS I'R ANABL

Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Cydymdeimlo

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar y dydd olaf o Fawrth, ac yntau yn 48 oed bu farw Steven, mab annwyl Gwen a’r diweddar Robert Erwyn Williams, 24, Bro Rhiwen, cymar hoff Janet, tad caredig Stephaniee a Rebecca a brawd arbennig Ken a Sharon. Bu’r angladd yng Nghapel Bereia Newydd yn ôl ei ddymuniad a’r Parch Elwyn Richards yn gwasanaethu. Fe’i magwyd yng Nghoed Mawr, Bangor a’r teulu yn mynychu’r capel Bereia gwreiddiol. Yng Nglanadda y dechreuodd ei ddiddordeb mewn pêl-droed, roedd yn aelod o dîm yr ysgol ac roedd yn gefnogwr brwd o dîm Dinas Bangor a Spurs. Bu’n rheolwr rhanbarthol gyda banc TSB ond ar y penwythnos byddai’n teithio i ralïau gyda’i sgwter, yn wir cymharwyd ef â’r gŵr yng ngân “Rebel Weekend” gan Bryn Fôn. Roedd yn un o sylfaenwyr Clwb Sgwter Bangor ac roedd amryw o’r aelodau’n bresennol yn yr angladd. Darllenwyd llu o deyrngedau iddo a braf oedd gweld nifer fawr o’i ffrindiau a chyfoedion yn yr angladd. Cydymdeimlwn â’r teulu i gyd yn eu profedigaeth drist.

Dymuna’r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch yn arbennig am y rhoddion hael er cof am Steven tuag at Ymchwil Cancr y DU.

O gofnodion Cyngor Llanddeiniolen

Angen sylw i lwybr o Cae Llel i fyny i Lôn Castell - amhosib ei gerdded gan ei fod dan fwd.

Baw Cŵn - Mae bin ychwanegol ar ei ffordd, ac mae’r biniau’n cael eu gwagio yn wythnosol ar hyn o bryd, ond mae pryder am faint mae hyn i barhau gan fod y swyddog sydd yn gwneud y gwaith ar hyn o bryd yn ymddeol ym mis Medi. Trafodwyd bod angen ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn a ydy pob bin yn cael ei wagio yn wythnosol, a beth y gellir ei wneud ynglŷn â bagiau baw cŵn sydd yn cael eu hongian ar weiren bigog neu mewn waliau yn y pentrefi.

Dymuno’n dda

Pob dymuniad da i Lawrence Grace, Tan y Weirglodd Lodge, mae wedi ymuno â’r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig ac yn treulio y rhan gyntaf o’i hyfforddiant yn Catterick yn Swydd Efrog. Y mae ei fam Sharon wedi newid swydd, y mae bellach yn gyfrifol am yr arlwyio yn First Hydro yn Llanberis, pob hwyl iddi hithau hefyd.

Llongyfarchiadau

Y mae Cerin, 4, Bro Rhiwen, wedi llwyddo yn ei phrawf gyrru, llongyfarchiadau i ti. Mae’n gweithio yn Llanberis ac fe fydd y gallu i ddreifo yno yn hwyluso pethau ‘dwi’n siŵr.

Merched y Wawr

Cyfarfod Mis Ebrill

Annes oedd llywydd y mis a rhyw hanner awr cyn y cyfarfod derbyniodd e-bost yn ateb y llythyr a anfonwyd at swyddogion Pontio yn mynegi ein siom gyda’r ‘Caban’ gwyrdd sydd ar y safle. Mae’n debyg mai ni sydd heb ddeall mai dehongliad cyfoes o’r cysyniad o fan cyfarfod ydyw, mae’n lle i bawb ac mae nifer o sesiynau wedi eu cynnal yno eisoes. Pwysleisiwyd ei fod yn barhaol. Rhydd i bawb ei farn, ynte?

Gwestai’r noson oedd Wendy Ostler o Fethel ac mae’n aelod o’r grŵp dawns 60+, Cain, sy’n cyfarfod yn y Galeri yng Nghaernarfon. Mae’n rhoi cyfle i ymestyn ac ymlacio, bu Annes yn aelod am gyfnod ac roedd yn canmol y profiad a gafodd yno. Cai Tomos o Gaernarfon a gychwynnodd y sesiynau, mae’n ddawnsiwr proffesiynol ac yn darlithio yn y pwnc hefyd yn Llundain ond yn dod at y grŵp un waith y mis. Gwelsom fideo o’r criw yn dawnsio ac yn siarad am eu profiadau. Roedd Wendy yn egluro ei bod yn gallu mynegi ei theimladau yn well trwy ddawns na mewn geiriau. Cawsom gyfle i ymlacio trwy wneud i’n dwylo ddawnsio. Diolchodd Helen iddi am noson ddiddorol. Carys a Linda oedd yn gyfrifol am y baned. Does dim ond dau gyfarfod eto, ym mis Mai rydym yn ymweld â Siop Iard yng Nghaernarfon ac allan i giniawa ym Mehefin a’r lleoliad i’w drefnu.

Clwb Rhiwen

Cyfarfod 6 Ebrill

Daeth Steven Williams o Age Cymru Gwynedd a Môn atom i siarad am yr hyn a gynigir ganddynt ac am y gwasanaethau sydd ar gael hefyd. Roedd ganddo bamffledi ar amrywiol bynciau. Diolchwyd iddo am ddod atom ac roedd yn ein hannog i godi’r ffôn os oedd unrhyw broblem yn codi. Diolch i Mair a Myra am y baned a’r deisen flasu ac am y raffl.

Cyfarfod 20 Ebrill

Cawsom drafodaeth am y wybodaeth a gawsom gan Steven Williams, Age Cymru Gwynedd a Môn. Diolch i Dilys am wneud y trefniadau ar gyfer ein hymweliad â Llaeth y Llan, 29 Mehefin a dyddiad arall i’w gofio yw 18 Mai pan fyddwn yn ymweld â’r amgueddfa newydd ym Mangor. Mae’r merched hefyd wedi penderfynu gwau blancedi ar gyfer babanod cynamserol yn Ysbyty Gwynedd .

Brysiwch wella

Y mae nifer wedi bod yn cwyno yn ddiweddar, yn sicr nid yw’r tywydd cyfnewidiol wedi bod o help, gobeithio yn wir y bydd gan y dyn tywydd newyddion gwell i ni yn y misoedd nesaf. Cofion atoch a brysiwch wella.

Hynt a helynt y gog

Yn dilyn trafodaeth ddifyr am y gog rhwng Aled Huws a Kelvin Jones, Galwad Cynnar, roedd yn rhaid cysylltu ag Ann Williams, Cae Mawr sydd wedi cadw manylion amdani ers blynnyddoedd. Roedd yn ei disgwyl ar 18 Ebrill ond dau ddiwrnod yn ddiweddarach y cyrhaeddodd. Bellach mae amryw wedi ei chlywed, gan gynnwys Dilys Parry, sydd yn un dda am anfon gwybodaeth at Radio Cymru.

Tennis Bwrdd

Y n hoff o chwarae tennis bwrdd? Yna beth am ddod i’r Neuadd ar Nos Wener am hanner awr wedi saith, y mae nifer fechan wedi dechrau ymgynnull yno ac mae croeso i eraill ymuno â hwy.

Diolch

Hoffai Gethin Williams, Caeau Gleision, ddiolch i bawb a wnaeth ei noddi i sgïo pan fu’n ymweld â Pamporovo, Bwlgaria. Llwyddodd i gasglu £146 at Glwb Sgïo i bobl anabl. Da iawn ti Gethin.

Llais Ogwan

Ysgol Rhiwlas

Ymweliad â Thraeth Niwbwrch a Pili Palas
Ddydd Mercher 27 Ebrill, bu disgyblion yr Adran Iau ar ymweliad â thraeth Niwbwrch yn y bore yn astudio’r creaduriaid a’r planhigion a oedd yn byw yn yr ardal fel rhan o’u thema Trychfilod a Bwystfilod Bychan. Yna yn y prynhawn, cafodd y disgyblion ymweld â Pili Palas er mwyn dysgu am yr holl anifeiliaid a oedd yno a chafodd rhai o’r disgyblion gyfle hyd yn oed i gyffwrdd mewn neidr!

Ymweliad â Phentre Peryglon

Ddydd Gwener 29 Ebrill, bu disgyblion yr Adran Iau ar ymweliad â Phentre Peryglon, Talacre, Sir y Fflint lle cawsant ddysgu

am ddiogelwch yn y cartref megis y lolfa, y gegin, yr ystafell wely, y garej a’r ardd, camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar y safle adeiladu, bwlio, diogelwch wrth deithio, diogelwch ar y fferm ac yng nghefn gwlad – yn cynnwys ymwybyddiaeth o lifogydd a llawer mwy. Cafodd pawb ddiwrnod gwerth chweil a dysgu llawer o ffeithiau newydd a diddorol.

Croeso

Hoffem estyn croeso i Mrs Sioned Rowlands sydd wedi ymuno â ni yn Ysgol Rhiwlas. Mae Mrs Rowlands yn dysgu dosbarth Cyfnod Allweddol 2 bob dydd Mawrth. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 6 Afon bywyd gwladfawyr o Gymru ers 1865, ymhell iawn o Gymru (5)
- 7 Lledu, gwneud yn fwy (5)
- 9 Onest, heb ddim i'w gelu (6)
- 10 Y creadur wedi cael gradd yn y cylch, am guro'r sgwarnog efallai (6)
- 11 Anharddant gefn gwlad. Trydanol! (8)
- 13 "Clogwyn Du'r ----" (4)
- 14 Mae'r bois yn edrych yn gam (4)
- 16 Tynnu tuag at rhywbeth, fel afal Isaac Newton (8)
- 18 Hon gafwyd i'w cludo at 6 Ar Draws (6)
- 20 Gŵr o Mumbai (6)
- 21 Codi un ael yn gywir cyn taro'r ergyd (5)
- 22 Mae'n mesur a dangos purdeb aur (5)

I LAWR

- 1 Lle, ardal (6)
- 2 Gwaith a chyflogwr mwyaf Dyffryn Nantlle yn yr oes a fu (6,7)
- 3 Pres bach del i mi fy hun, fel arian mewn potel (4)
- 4 Un o'n rhigymau plant enwocaf (4,3,2,4)
- 5 Fel metel gwerthfawr 22 Ar Draws (6)
- 8 Dihirod drwg (6)
- 12 Mae Sian ar goll mewn un gân; dim harmoni o gwbl (6)
- 15 Adran i ddiffodd fflamau (6)
- 17 Mae'n troi'n chwerw wrth gadw reiat (6)
- 19 ---- Mabon, arwr bugeilgerdd enwog Ceiriog (4)


ATEBION CROESAIR EBRILL 2016

- AR DRAWS 1 Llesol, 4 Bwa, 6 Mot, 8 Dros Ben Llestri, 9 Anadl, 11 Nodi, 13 Unnos, 14 Daear, 15 Llwythi, 16 Amau, 18 Nodded, 21 Tatws Pum Munud, 23 Iâl, 24 Goch, 25 Iorwg

- I LAWR 1 Lladron, 2 Siol, 3 Libya, 4 Bun, 5 Aneglur, 6 Metronom, 7 Tei Las, 10 Angerdd, 12 Diymatal, 14 Dinesig, 15 Llestri, 17 Unedig, 19 Dimai, 20 Ynyr, 22 Uwch

Ymddangosodd nifer o wallau y tro hwn. Yr ateb cywir 'nodded' oedd y bwgan mwyaf. Cafwyd tri yn cynnig 'nhoddydd' a dau arall yn rhoi 'noddid'. Hefyd cafwyd 'iorag' yn lle 'iorwg', 'non' yn lle 'bun', a 'noa' yn lle 'bwa'. Dyma'r rhai a anfonodd atebion hollol gywir: Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Dafydd Evans, Penisa'rwaun; Margaret Jones, Rhiwlas; Elfed Evans, Karen a Tom Williams, J.R. a M.A. Jones, Llanllechid; Rita Bullock, Bethesda; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Gareth William Jones, Bow Street; Dulcie Roberts, Tregarth. Yr un sy'n mynd a'r wobwr y mis hwn yw Gaynor Elis-Williams, 55 Ffordd Carneddi, Carneddi, Bethesda, Gwynedd. Llongyfarchiadau i chi.

Atebion erbyn 1 o Fehefn, 2016 i 'Croesair Mai', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Atebion erbyn 1 o Fehefn 2016 i 'Croesair'
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Caerhun a Glasinfryn

Marred Glyn Jones, 2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor, LL57 4UP
☎ 01248 351067
marred567@btinternet.com

(Nid oedd newyddion mis Mawrth wedi'i gynnwys yn y rhifyn diwethaf – ymddiheurwn am hynny)

Cydymdeimlad

Ar 11 Ebrill bu farw Elsie Oswald Jones, Tyn Pwll, Caerhun, wedi gwaeledd byr. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei gŵr, Elwyn; y plant, Andrew ac Alison, a'r teulu oll yn eu colled.

Newyddion trist

Ar 26 Mawrth yng nghartref Cerrig yr Afon, y Felinheli, bu farw Robert Ogwen Jones, a ddaw yn gynt o Waen Wen. Roedd yn 96 oed, ac yn ŵr i'r diweddar Winnie. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu yn eu profedigaeth.

Bingo

O'r diwedd llwyddwyd i gynnal y noson Bingo tuag at yr elusennau Tŷ Gobaith ac Ambiwylans Awyr, a hynny ar 29 Ebrill, ar ôl gorfod gohirio ddwywaith oherwydd y tywydd garw! Gwnaed elw o £124.
Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau a chefnogaeth. Bydd sesiwn Bingo tuag at brynu offer i Ward Alaw yn cael ei gynnal yn y Ganolfan yng Nglasinfryn ar 3 Mehefin am 7.30yh.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Huw V Williams, mab David a Carol Williams, Tyddyn Heilyn, Caerhun, sydd wedi rhyddhau CD o'r enw *Hon*. Derbyniodd y CD adolygiad da ym mhapur newydd *The Guardian*. Recordiwyd y CD yn Stiwdio Bryn Derwen, Bethesda, ac eithrio un trac a recordiwyd yng Ngŵyl Jazz Aberhonddu.

Dathlu

Llongyfarchiadau i Hefin a Nesta Parry, Tŷ Capel Caerhun ar ddathlu eu Pen-blwydd Priodas Aur ym mis Ebrill. Cafodd y ddau fwynhau llawer o ddathlu: gwyliau gyda'r



Hefin a Nesta Parry yn dathlu eu Priodas Aur

teulu i gyd yn Tenerife, nifer o brydau bwyd blasus i ddathlu'r achlysur a noson mewn gwesty moethus yng Nghaer!

Cynhyrchiad opera

Mae Marian Bryfdir, Bro Eryri, wedi bod yn brysur. Fe fu hi'n cyfarwyddo'r opera 'Dido and Aeneas' gan Henry Purcell yn Neuadd Pritchard Jones, Bangor ar 1 Mai ac yna yng Nghanolfan yr Ucheldre ar 2 Mai. Cwmni Opera Prifysgol Bangor a Cherddoriaeth Gynnar Bangor o dan arweiniad Chris Collins oedd yn perfformio'r gwaith.

Sefydliad y Merched

Cyfarfod Mawrth
Mi fuon ni'n dathlu Gŵyl Dewi ar 9 Mawrth yng nghwmni pump o bobl ifanc o'r brifysgol sy'n cael eu hyfforddi gan un o'n haelodau, Marian Bryfdir. Gwyddwn am ddawn gerddorol Marian ac felly, allwch dybio mai gwledd a gawsom gan y myfyrwyr sydd dan ei gofal.
Galwant eu hunain yn *Eryri Ensemble*. Rhaglen o ganeuon yn cyfleu Cariad, Gobaith a Hiraeth oedd ganddynt a phob un o'r aelodau yn cymryd rhan unigol yn ogystal â chanu fel pumawd.
Roedd ganddyn nhw leisau hyfryd iawn a mwynhawyd hen ffefrynau fel 'Bugail Aberdyfi' ac 'Elen Fwyn'.

Diolchwyd iddynt gan Glenys a dymunodd yrfa lwyddiannus i bob un ohonynt yn y byd cerddorol gan awgrymu efallai y cawn eu gweld ar lwyfan neu ar deledu yn y dyfodol.
Diolchodd i Marian am ei chyfraniad ac estynnodd groeso iddynt ymuno â ni yn y cinio.
Mair oedd llywydd y noson a chawsom ein croesawu yn gynnes iawn i'r dathlu. Braf oedd cael cwmpeini Alison, merch Elsie Oswald Jones, sydd gartref oherwydd gwaeledd ei mam. Mae Elsie yn derbyn gofal yng nghartref Ceris ar hyn o bryd ac anfonwn ein cariad a'n dymuniadau gorau ati.
Wel, rŵan at y wledd! Mi gawson ni gawl

blasus wedi ei baratoi gan Mair a phob math o ddanteithion melys gan yr aelodau eraill. Mi roedd pawb wedi cyfrannu at wneud y noson yn un arbennig a phawb wedi mwynhau llond bol o fwyd!

Cyfarfod Ebrill

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill ar nos Fercher 13 Ebrill dan lywyddiaeth Sarah Flynn. Roedd Sarah newydd ddychwelyd o Kenya lle bu'n gwirfoddoli. Cyn croesawu pawb a thrafod materion bu'r aelodau'n sefyll mewn tawelwch i gofio am un o'n haelodau annwyl sef Elsie Oswald Jones a fu farw yn ddiweddar. Roedd yn un o'r aelodau cyntaf i ymaelodi yng Nglasinfryn ac fe fydd hi'n chwith hebddi. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn Tyn Pwll ac anfonwn ein cofion atynt.
Cyn cyflwyno ein siaradwr o'r Parc Cenedlaethol cawsom banad wedi ei pharatoi gan Margaret Owen a Kath Jones. Rhoddwyd y raffl gan Margaret Griffith. Naomi Jones oedd y siaradwr ar ran Parc Cenedlaethol Eryri. Mae wedi gweithio i'r Parc ers naw mlynedd. Roedd yn hynod o ddiddorol a gwybodus ac yn frwdfrydig am ei gwaith. Cawsom ddarlun o weithgareddau'r Parc a sefydlwyd yn 1949.
Parc Eryri yw'r parc cenedlaethol mwyaf yng Nghymru ac mae wedi ei rannu fel y ganlyn: arfordir mynyddoedd, rhostir, trefydd, a phentrefi. Mae hyn i gyd yn gwneud Parc Cenedlaethol Eryri yn unigryw. Mae yna waith cynnal a chadw eang i'w wneud yn y parc, o'r tir i'r traethau, a gwarchod y bywyd gwylt, gofalu am y llwybrau ac ati.
Prosiect mae Naomi yn gweithio arno ar hyn o bryd yw adnewyddu Yr Ysgwrn, sef cartref y bardd Hedd Wyn. Roedd yn llawn brwdfrydedd wrth sôn am ei gwaith yn Yr Ysgwrn.
Diolchwyd i Naomi gan Carole Singleton.
Yn wir, mae Parc Cenedlaethol Eryri yn ardal o harddwch ac ys dywed y bardd, yn lle i 'Enaid gael llonydd'.

Giât Bryn Difyr

Yn erthygl André Lomozik yn y rhifyn diwethaf, ymddangosodd llun o giât ffrynt Bryn Difyr, fy nhŷ i yma ym Mraichtalog, Tregarth.
Y mae nifer fawr o'r giatiau yma trwy'r plwyf. Tybed ai'r Felin Fawr oedd eu tarddiad – maent yn dilyn yr un patrwm ac o'r un crefftwaith.
Yr oedd yna efail gof yn ymyl y Douglas ym Methesda - teulu Williams, a wnaeth y bwa er cof am y milwyr wrth y gofeb. Wedyn roedd gefail Richard Owen - lle y gwnaeth fy nhad ei brentisiaeth, cyn mynd i Stafford.
Ym Mryn Bela, roedd gefail William Edwards. Hyd heddiw, Rallt William Edwards - a Rallt Refail - y gelwir yr allt sy'n

mynd i fyny o Fryn Bela i gyfeiriad Rachub.
Yn Llan, ger Red Lion, roedd gefail Huw Thomas, wedyn fy nhad am 60 mlynedd. Yr oedd ganddo efail yn Giatws hefyd.
Pan oeddwn yn dechrau yn yr efail gyda fy nhad, byddem yn gwneud giatiau ffermydd hefyd. Cawsom archeb am giât ardd, a fi a'i gwnaeth dan oruchwyliaeth fy nhad. Ni ddaeth y ddynes ymlaen i brynu'r giât, felly mae hi gyda mi o hyd wrth ochr fy nhŷ.
Y giât hiraf a wnaethom oedd un rhwng Rhiwen a Than y Garth. Yr oedd lori'r fyddin wedi malu giât bren yno! 'Rivets' dim weldio oedd y gwaith i gyd.

Wynne Roberts

Ysgol Pen-y-bryn

Cymru’n Cŵl

Cawsom wneud amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn ystod wythnos Cymru Cŵl. Ar ddechrau’r wythnos buom yn dysgu am ein nawddsant Dewi Sant er mwyn paratoi at wasanaeth arbennig i ddathlu ein Cymreictod. Roedd pawb wrth eu boddau yn chwarae gemau cyfrifiadur ar wefan Hwb ac yn dysgu mwy am Dewi Sant yr un ffordd. Bu pawb yn meddwl am yr holl bethau rydym yn eu cysylltu â Chymru – lleoliadau, cerddoriaeth, bwyd, natur, enwogion ac aethom ati i greu map meddwl o’n syniadau. Wrth gwrs rydym i gyd wedi clywed Anthem Genedlaethol Cymru ar ddechrau gemau Pencampwriaeth Rygbi’r Chwe Gwlad, felly aethom ati i ddysgu’r geiriau gyda chymorth safle Can Sing ar y we, ac yna mynd ymlaen i greu poster. Hefyd, buom yn lwcus iawn oherwydd daeth Alun Tan Lan i’r ysgol efo dros 30 o ‘ukueles’, cawsom sesiwn hwyliog iawn yn canu a dysgu chwarae’r ‘ukulele’ ac roedd yn braf iawn gweld Alun ar Cân i Gymru. Hefyd, daeth Elain Llwyd i gynnal gweithdy am streic y Penrhyn gyda blwyddyn 5 a 6 - gwyd! Daeth Mari Davies, cyn-ddisgybl yr ysgol a phencampwraig hwylio, i siarad gyda phlant bl 5 a 6 am ddylanwad y Gymraeg ac addysg ar ei llwyddiant yn y byd chwaraeon. Wir, roedd hi’n wythnos arbennig!

Trawsgwlad

Llongyfarchiadau mawr i Callum, Elin a Lauren a fu’n rhedeg yn ddiweddar yng nghystadlaethau trawsgwlad yr Urdd yn Stad y Faenol. Da iawn chi.

Pêl-droed i’r merched!

Cafodd genethod blwyddyn 3, 4 a 5 ddiwrnod diddorol iawn yn ddiweddar, gyda thrip i Glwb Pêl-droed Bangor i gymryd rhan mewn Gŵyl Bêl-droed – diwrnod o hyfforddiant a datblygu sgiliau. Ond fe gafodd yr hogiau eu Gŵyl Bêl-droed eu hunain hefyd yn y dosbarth; yn darllen hanes pêl-droed, dylunio crysau pêl-droed a dehongli data o dabl Cymru yng nghystadlaethau Ewro 2016!

Mewn Cymeriad

Cafodd dosbarth Glyder gyflwyniad arbennig o dda am y Blitz gan y cwmni



Mari Davies, cyn-ddisgybl yr ysgol

‘Mewn Cymeriad’. Dysgodd y plant lawer am ddogni bwyd, dillad y cyfnod a sut roedd pobl yn ymdopi mewn argyfwng bomiau - difyr dros ben.

Eisteddfod Yr Urdd

Llongyfarchiadau gwresog i bawb a fu’n cystadlu yn eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd. Roedd amrywiaeth o gystadlu; o ganu i actio i gelf! Llwyddodd y parti unsain i gael cyntaf yn yr Eisteddfod Sir ac felly i fwrdd â ni i’r Fflint!

Ffitrwydd

Brynhawn dydd Mercher, 3 Chwefror, daeth Lisa o Gyngor Gwynedd i gynnal sesiwn ffitrwydd gyda phlant blwyddyn 5. Bu’r plant yn rhedeg yn gyflym, gwneud ‘press-ups’, ymarfer ymestyn, cyd-bwysedd ac ystwythder er mwyn profi ffitrwydd. Bydd Lisa yn dychwelyd ymhen 6 wythnos i ail-brofi ffitrwydd y plant gan obeithio y bydd yn gweld datblygiad ar ôl gwneud llawer o wahanol weithgareddau.

Rygbi Cynradd (7 bob ochr) Yr Urdd, Rhanbarth Eryri

Cynhaliwyd twrnaint Rygbi 7 bob ochr brynhawn dydd Mercher, 27 Ebrill ar gaeau Clwb Rygbi Caernarfon. Bu cystadlu brwdfrydig rhwng nifer helaeth o dimau, llwyddodd yr hogiau i gyrraedd y rownd gynderfynol, ond yn anffodus ar ôl gem agos iawn, ni chafwyd buddugoliaeth! Trio eto flwyddyn nesa! Diolch i griw Ysgol Dyffryn Ogwen sydd wedi bod yn cynnal sesiynau rygbi gyda’r hogiau ar brynhawn dydd Llun, hyn wedi bod o fudd iddynt wrth gystadlu dwi’n siŵr!

Pythefnos Masnach Deg

Bu pawb yn yr ysgol yn brysur yn ddiweddar yn nodi pythefnos Manach Deg. Daeth Mrs Helen Williams atom i gynnal sgwrs ddifyr iawn am Fasnach Deg, a dysgwyd llawer ganddi, gan gynnwys y ffaith mai Cymru oedd y genedl gyntaf i gael y fraint o fod yn Genedl Masnach Deg swyddogol! Bu pob dosbarth i wrthi’n gwneud gweithgareddau gwahanol yn ymwneud â Masnach Deg, gan gynnwys posteri a thafenni gwybodaeth.

Ymweliad Bardd Plant Cymru

Daeth y bardd Aneurin Caradog i gynnal gweithdy barddoniaeth gyda disgyblion blwyddyn chwech. Cafwyd bore cyfan o gyfansoddi cerddi o bob math, a chyfle i rapio rhai ohonynt! Y brif neges oedd ganddo oedd bod pawb yn gallu bod yn fardd, pawb yn gallu chwarae gyda geiriau i greu campweithiau. Yn sicr, fe wnaeth ein hysbrydoli i fynd ati i ysgrifennu!

gair neu ddau

John Pritchard

Caerlŷr

Ychydig flynyddoedd yn ôl roedd Radio Cymru’n cyfeirio at ‘Caerlŷr-Leicester’ a ‘Chaelielydd-Carlisle’ wrth sôn am dimau pêl-droed y dinasoedd hynny. Rhod y gorau i wneud hynny ers tro, am fod cefnogwyr pêl-droed o bosibl wedi dod yn fwy cyfarwydd â’r enwau Cymraeg. Rhaid i mi gyfaddef nad wyf yn cofio pa un ai at ‘Carlisle’ ynteu at ‘Gaerliwelydd’ y cyfeiriai’r darlledwyr Cymraeg adeg y llifogydd a gafwyd yno ddechrau’r flwyddyn. Yr enw Saesneg a ddefnyddid amlaf o bosibl, am fod ‘Caerliwelydd’ yn dal yn enw dieithr i’r mwyafrif ohonom. Mae’r enw ‘Caerlŷr’ yn fwy cyfarwydd i ni’r gwrandawyr, yn rhannol oherwydd yr holl gyfeiriadau at ddarganfod gweddillion y Brenin Richard III dan faes parcio yn y ddinas! Ac erbyn hyn, gyda’r holl sylw a roddwyd i bencampwyr newydd Uwch Gynghrair Lloegr, fydd gan neb esgus dros beidio â chofo mai Caerlŷr yw Leicester. A mawr oedd y dathlu. Nid Caerlŷr yw fy nhîm i, ond roeddwn innau’n falch o’i weld yn dod i’r brig. Ac rwy’n ceisio cyfiawnhau hynny. Mae gen i gysylltiadau teuluol â’r ddinas! Aeth dau gefnder i mi yno i weithio flynyddoedd yn ôl, ac mae un ohonynt yno o hyd. Mae un o chwaraewyr Cymru, Andy King, yn aelod o’r tîm! Ac mae wastad yn braf gweld y ‘bobl fach’ yn trechu’r ‘bobl fawr’! Ond mae’r gwir reswm dros groesawu llwyddiant Caerlŷr yn llai anrhydeddus. Pe byddai gan Manchester United obaith o ennill, fyddwn i ddim o blaid Caerlŷr am un eiliad. Ond gan nad oedd fy nhîm i yn y ras roedd buddugoliaeth Caerlŷr yn golygu na fyddai Manchester City na Chelsea nag Arsenal na Lerpwl yn ennill chwaith. Gwir lawenydd buddugoliaeth Caerlŷr i mi oedd methiant a siom y timau eraill hyn a’u cefnogwyr. O leiaf, fydd dim rhaid goddef clochdar y cymdogion o Fanceinion eleni! Ond y gwir yw nad oes fawr o anrhydedd mewn ceisio cysur a llawenydd yn nioeddefaint pobl eraill. Yr enghraifft waethaf oll o hynny oedd gwawd y milwyr a boerodd ar Iesu a’i guro, a dirmyg y prif offeiriaid a’r ysgrifenyddion a’r henuriaid a’i heriodd i ddod i lawr o’r groes. Roedd cur a phoen Iesu Grist yn fêl ar fysedd y bobl hyn. Wyddai’r rhain ddim oll am gydymdeimlo â’r dioddefus, a chysuro’r anghenus, a chynorthwyo’r gwan. Ond fe wyddai gwrthrych y gwawd bopeth am y pethau hynny. Dyna’r pethau yr oedd Iesu’n eu dysgu, a dyna’r pethau yr oedd yn eu gweithredu. A dyna’r pethau y disgwyli’r i’w ddisgyblion eu gwneud o hyd. Ac onid yng ngoleuni hynny y mae Paul yn ein hannog, ‘Llawenhewch gyda’r rhai sy’n llawenhau, ac wylwch gyda’r rhai sy’n wylu’? (Rhufeiniaid 12:15).

Ysgol Dyffryn Ogwen

LLECHI / llechi? - Prosiect Cyfansoddi Cân
Diben y prosiect yma oedd cael aelodau ifanc adran gerdd yr ysgol i gydweithio er mwyn creu cân wedi ei hysbrydoli gan eu hamgylchedd i'w pherfformio yn noson agoriadol LLECHI gan Ganolfan Pontio, Bangor.

Buddug Roberts (14 oed ar y pryd) oedd cyfansoddwr y gwaith buddugol. Hi ysgrifennodd y geiriau a'r gerddoriaeth a phenderfynwyd datblygu'r darn ar gyfer côr yr ysgol. Ymunodd rhieni a chynrychiolaeth o Gôr y Penrhyn, a daeth Menai Williams, hithau'n gyn-arweinydd a'nain y gyfansoddwraig, i gyfeilio.



Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd
Dymuniadau gorau i'r canlynol a fydd yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Fflint ddiwedd Mai - Gwydion Rhys ar yr unawd llinynnol, Elis Evans a Luned Elfyn ar yr Ymgom, y Parti Bechgyn a'r Côr Cerdd Dant. Pob lwc i chi i gyd!

Awyr Dywyll Eryri
Bu disgyblion blwyddyn 7 ac Adran y Gymraeg yn cydweithio ar brosiect 'Awyr Dywyll Eryri' gyda'r Parc Cenedlaethol. Bwriad y cynllun yw gwarchod ardaloedd gydag amgylchfyd nos eithriadol,

a bu'r disgyblion yn gweithio ar gyfres o dasgau gyda swyddog addysg y parc gan ddisgrifio rhai o'r golygfeydd rhyfeddol a welir yn yr awyr uwch ein pennau.

Cynhadledd Ieuenctid Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd – Gyrfa Werdd?
Aeth wyth disgybl o'r ysgol i Gynhadledd Ieuenctid Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd - Gyrfa Werdd? ar 8 Mawrth 2016 i Glynllifon a oedd yn sôn am yrfaedd yn y byd amgylcheddol. Derbyniodd y criw gyflwyniadau gan fusnesau lleol a chyfle i werthfawrogi cynnyrch cwmni Adra, a derbyn gwybodaeth am y cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn yr awyr agored. Yr oedd y diwrnod yn fuddiol i'r aelodau o grŵp Eco Ysgol Dyffryn Ogwen.

"Mae'r profiad wedi ein hybu i ddatblygu sgiliau 'gwyrd' ac entrepreneuriaeth yma yn Nyffryn Ogwen" - Beca Nia, Blwyddyn 9.

Ynni Ogwen
Cafwyd diwrnod gwisg eu hunain yn yr ysgol - gyda phawb yn gwisgo dilledyn gwyrdd - gan gasglu digon o arian i brynu gwerth £250 o gyfranddaliadau yng nghynllun hydro Ynni Ogwen. Bwriad yr ysgol yw gwneud defnydd addysgiadol o'r cynllun gan godi ymwybyddiaeth o fanteision cynhyrchu ynni glân a fydd yn fanteisiol i'r gymuned.

Ymweliad â'r Brifysgol
Yn ddiweddar cafodd myfyrwyr BTEC Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 3 brynhawn diddorol yn ymweld â labordai microbiolog Prifysgol Bangor. Fe siaradodd Mr Merfyn Williams (Cyfarwyddwr y cwrs



Gwyddoniaeth Biofeddygol) a Mrs Louise Thurlow (Technegydd y labordy) am y gwaith sydd yn cael ei wneud yn y labordai. Bydd y myfyrwyr yn mynd ati nawr i gynllunio eu labordai arbenigol eu hunain gyda'r holl nodweddion a welwyd yn y brifysgol fel rhan o'u gwaith ar gyfer yr uned 'Gweithio yn y diwydiant Gwyddoniaeth'.

Criced
Bu dau dîm merched o'r ysgol mewn cystadleuaeth criced dan-do Gogledd Cymru yn ddiweddar gan gystadlu yn erbyn rhai o ysgolion uwchradd mawr y gogledd-ddwyrain. Y canlyniad oedd i'r ddau dîm ennill gêm ar ôl gêm, gydag un tîm yn ennill y gystadleuaeth a'r llall yn drydydd. Dipyn o gamp!

Rygbi
Yn anffodus colli fu hanes y tîm



David Florence

bechgyn dan 15 yn erbyn Ysgol David Hughes 22-20 yn rownd derfynol cwpan Eryri. Mathew Buchanan, Kieran Briggs a Shaun Roberts yn sgorio. Ben Williams yn cicio un gic gosb ac un trosiad. Ymdrech wych hogia!
Llongyfarchiadau hefyd i Iago Davies oedd yn rhan o garfan dan 18 Rygbi Gogledd Cymru yn erbyn y Gweilch ym Mharc Eirias yn ddiweddar. Bu hefyd yn rhan o garfan dan 17 Rygbi Gogledd Cymru mewn twrnamaint Rhyngwladol ym Mharc Eirias.

Bocsio
Llongyfarchiadau i David Florence ar ddod yn bencampwr Cymru mewn cystadleuaeth Bocsio yng Nghaerdydd dros y Pasg.
Hefyd i Les Florence a enillodd y Fedal Arian ym mhencampwriaethau bocsio Prydain.



Les Florence

DAFYDD CADWALADR
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

Pob math o waith trydanol
Huw Jones
Ymgymwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol
Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

CHRIS GRIFFITHS
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
01248 713 369 neu 07813 455653

Ysgol Llandygai

Menter Ynni Ogwen

Daeth aelod o'r fenter gyffrous atom i siarad am y cynllun ac esbonio beth yw nod y cynllun. Cawsant amser i ofyn cwestiynau ac roedd brwdfrydedd y plant yn heintus. Roedd y disgyblion wedi dod i'r ysgol yn gwisgo dillad gwyrdd gan godi arian at Gynllun Eco yr ysgol.

Profion Cenedlaethol

Bu disgyblion Blynyddoedd 2 i 6 yn brysur yn ddiweddar yn gweithio drwy brofion iaith a rhif. Da iawn chi blant os!

Llongyfarchiadau

Braf oedd clywed y newyddion da fod Mrs Einir Hughes wedi rhoi genedigaeth i ferch fach. Croeso i Cari, chwaer fach i Medi a Sara.

Croeso

Croeso i Miss Delyth Jones sydd wedi dod
atom i'r ysgol fel gweinyddes dros dro.

Ffair Lyfrau

Yn dilyn Ffair Lyfrau lwyddiannus dros ben,

cawsom lyfrau newydd i'r ysgol gwerth £400.
Diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Teithio Noddedig

Bu disgyblion Dosbarth Traed Bach ac Enfys yn cymryd rhan mewn gweithgaredd noddedig - yn teithio mewn amrywiol ffyrdd gan mai Teithio yw thema'r tymor. Casglwyd swm parchus iawn a bydd yr arian yn cael ei wario ar flodau ac eitemau amrywiol i'r ardd.

Beicwyr o Fri

Yn dilyn hyfforddiant, mae 'r disgyblion hynaf bellach wedi dysgu sut i feicio yn ddiogel a braf yw gweld ambell un yn dod i'r ysgol ar eu beic yn y bore. Llongyfarchiadau.

Trawsgwlad

Bu disgyblion o'r ysgol yn cymryd rhan mewn rasio trawsgwlad ar dir Castell Penrhyn. Cawsant gyfle i gymysgu a chystadlu yn erbyn disgyblion ac amryw o ysgolion lleol.

Croeso

Braf yw gweld Mr Richard Llwyd Jones yn ôl fel aelod o'r tîm gwirfoddolwyr darllen. Diolch i'r gwirfoddolwyr am eu hamser amhrisiadwy.

Gwersi Criced

Mae disgyblion Dosbarth Tirion yn hynod o ffodus yn cael eu harwain gan Mr Peter Evison o Glwb Criced Bangor er mwyn dysgu sgiliau a rheolau'r gêm. Diolch yn fawr.

Pontio

Unwaith yn rhagor cafodd disgyblion Dosbarth
Tirion gyfle i ymweld â Theatr Pontio i
fwynhau perfformiad ac i gymryd rhan mewn
gweithdy gyda phedwarawd Benyounes.
Cerddoriaeth y cyfansoddwr Dvorak oedd dan
sylw. Profiad gwerthfawr iawn.

Y Douglas Arms

* Lluniaueth i Bartŵn * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewh groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

CHWILAR

LLEFYDD YN SIR BENFRO

A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I
S	V	C	A	E	R	F	A	R	C	H	E	L	L	S	E	H	E	I	M
G	B	W	L	C	H	Y	G	R	O	E	S	P	A	G	V	A	H	M	D
W	H	U	Z	M	X	V	A	D	D	N	E	B	L	A	B	P	A	U	Q
U	S	S	O	F	R	P	Y	Q	Z	N	E	W	G	E	R	H	C	U	M
W	E	N	O	Y	R	I	A	S	C	R	Y	Z	R	U	T	F	S	D	X
U	O	P	W	R	H	C	Q	E	G	S	H	D	W	E	H	Y	O	Y	E
E	R	G	E	O	M	H	M	W	W	E	A	P	T	T	W	C	B	B	C
U	G	U	J	P	L	A	A	R	T	U	M	I	V	L	V	D	C	B	B
F	N	R	F	O	I	U	W	G	G	J	V	I	G	I	R	R	X	I	M
H	O	T	T	S	N	O	S	L	K	O	P	E	W	R	C	M	K	C	B
O	N	R	C	X	V	R	E	Y	H	S	R	T	M	R	S	E	F	Y	J
D	N	Z	H	B	C	D	W	O	S	Y	C	R	A	I	O	R	X	N	I
L	Y	X	J	J	D	M	B	W	M	T	E	X	M	D	F	Y	X	K	F
U	F	P	C	A	Q	Y	O	W	I	L	F	E	R	Z	F	B	Q	R	O
C	F	T	U	D	G	W	C	S	L	Z	E	B	E	A	N	S	J	K	J
C	D	O	G	S	Y	P	Y	H	C	Y	B	N	I	D	E	Y	L	N	L
R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	J	Q	A	N	U	L	F
S	V	T	X	E	U	H	W	L	F	F	O	R	D	D	L	Y	G	H	S
L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z	H	K	V	A	G	B	B	N	K	A

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg lle yn **SIR BENFRO** yn ymddangos. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb, yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Mehefin 1af . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr.

Henaint ni ddaw ei hunan medd y dywediad, ac mae'n ddigon gwir. Yn y chwilair fis diwethaf dywedais fod yna ddeuddeg lle yn Sir y Fflint i'w darganfod, ond erbyn i mi sylwi dim ond unarddeg enw roeddwn wedi eu cynnwys ynddo, felly rwyf yn ymddiheuro os ydych wedi treulio oriau yn chwilio am y deuddegfed enw. I Sir Benfro rydym yn mynd y mis yma, pob hwyl ar eich taith.

Dyma atebion Ebrill:- Afonwen; Brychdyn; Cei Connah; Coedtalon; Ffynnongroyw; Maes-glas; Penarlâg; Rhosesmor; Trelawnyd; Y Parlwr Du; Ysgeifog. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:-** Elizabeth Buckley, Tregarth; Mair Jones, Bethesda; Doris Shaw, Bangor; Gwenda Roberts, Rhosmeirch, Ynys Môn; Elfed Bullock, Bethesda; Marilyn Jones, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch. **Enillydd Ebrill oedd.** Doris Shaw, 26 Llwyn Hudol, Bangor. LL57 1SG

Ysgol Bodfeurig

Ymddiheurwn nad ymddangosodd newyddion mis Ebrill Ysgol Bodfeurig yn y rhifyn diwethaf. Mae'r newyddion canlynol yn gyfuniad o'r ddau fis - Gol

Diwrnod y Llyfr

Eleni i ddathlu diwrnod y llyfr penderfynodd y Cyngor Ysgol gynnal diwrnod newid llyfrau. Roedd cyfle i bawb ddod â llyfr roeddent wedi gorffen ei ddarllen i'r ysgol ac roeddent yn gallu ei gyfnewid am lyfr arall. Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr - diolch i'r Cyngor Ysgol am eu gwaith caled unwaith eto!

Hwb+

Eleni mae'r ysgol yn gweithio ar ddatblygu llythrennedd digidol pob disgybl. I'r perwyl hwn, cafwyd dau ddiwrnod gwyh yng nghwmni dau athro arbenigol. Yn ystod y gwersi cafodd disgyblion dosbarth Tryfan ac Ogwen gyfle i ddysgu mwy am Hwb+ sydd am fod yn bwysig iawn yn yr ysgol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Cafodd pawb amser gwyh yn dysgu sgiliau newydd. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i ymarfer y sgiliau yma yn yr ysgol.

Ymweliad Tesco

Roedd pawb yn gyffrous iawn pan ddaeth y bws i'n

nôl ni i fynd i lawr i Fangor i Tesco! Y tymor yma rydym wedi bod yn dysgu mwy am archfarchnadoedd a Masnach Deg ac roeddem yn edrych ymlaen at ddysgu mwy am sut mae archfarchnad yn gweithio. Cawsom ddechrau wrth helpu yn y becws yn gwneud bara cyn blasu llawer o fwydydd gwahanol fel *tzatziki* a hadau blodau haul! Ar ôl mynd i lawr grisiau ac trwy'r oergell (oedd yn oer iawn!) cawsom chwilio am ffrwythau a llysiau o bob lliw. Y cam nesaf oedd blasu caws, yn sicr y *double gloucester* oedd y ffefryn heddiw. Aethom i weld y pysgod a dysgu enwau Cymraeg am lawer ohonynt. Rhan olaf ein taith oedd helpa masnach deg, cawsom fasged siopa ac i ffwrdd â ni i'w llenwi gyda chynnyrch Masnach Deg. Cafodd pawb amser bendigedig, diolch o galon i Lisa am ddangos bob dim i ni, cawsom amser anhygoel! Plant Dosbarth Tryfan

Cynllun Eco Ysgolion

Yn ystod mis Ebrill, cafodd yr ysgol y wobwr Platinwm gan Eco Ysgolion Cymru am ein gwaith dros yr wyth mlynedd ddiwethaf. Mae'r wobwr yn edrych ar lawer o agweddau e.e. ailgylchu, lleihau defnydd o ddŵr/ynni, dinasyddiaeth ac ati.



Y Cynllun Eco Ysgolion



Y plant wrthi'n brysur yn astudio'r ffrwythau lliwgar

Ysgol Abercaseg

Pennaeth Newydd

Hoffai pawb yn yr ysgol groesawu ein pennaeth newydd, Mrs Ceren Lloyd. Rydym yn falch o'i gweld yn ôl ac yn edrych ymlaen at gydweithio.

Clybiau ar ôl ysgol

Mae'r clybiau ar ôl ysgol wedi cychwyn eto i blant blynyddoedd 1 a 2. Dyna hwyl y mae plant Blwyddyn 2 yn ei gael wrth chwarae pêl-rwyd tra mae plant Clwb Drama Blwyddyn 1 yn gobeithio mai nhw fydd actorion y dyfodol!

Ymweliad Arbennig

Daeth Athrawon Ysgol y Gelli, Caernarfon i'n gweld er mwyn dysgu sut yr ydym yn cylchdroi gweithgareddau amser chwarae. Er gwaetha'r cenllysg, dangosodd y plant sut maent yn dysgu caneuon buarth, yn cydchwarae, rhannu a gofalu am ei gilydd wrth



Sarah Archer o'r Cynllun Gwên

chwarae. Mae gwaith pwysig Bydis Buarth yr ysgol yn rhan ganolog o hyn.

Cynllun Gwên

Daeth Sarah Archer o Gynllun Gwên i'r ysgol i siarad â'r plant Meithrin am bwysigrwydd brwsio dannedd. Roedd ei hymweliad yn

cyd-fynd â thema'r holl ysgol gan ein bod yn dysgu am sut i ofalu am ein hunain.

PC Meirion

Roeddem yn falch o weld PC Meirion yma unwaith eto. Bu'n ein dysgu y tro 'ma am bwy all ein helpu mewn argyfwng. Cyn ei ymweliad roedd y plant wedi bod wrthi'n dysgu eu cyfeiriadau.

Tyfu Llysiau

Mae'r ysgol gyfan wrthi'n brysur yn plannu llysiau i'w tyfu yng ngardd yr ysgol. Wrth wneud hyn mae holl blant yr ysgol yn dysgu sut i ofalu am lysiau a sut i gadw'n iach.

Anrheg i'r Ysgol

Hoffai bawb ddiolch yn fawr i Miss Thomas am brynu bath adar o lechen yn anrheg i'r ysgol. Mae'n edrych yn hynod o ddel yn yr ardd. Gobeithio ei bod yn mwynhau ei swydd.

Chwaraeon

Adroddiad Ras Moel Wnion – lleoliad Rachub ger Bethesda
Oddeutu 4.5 milltir / 1772 troedfedd.
Yr oedd yn bleser croesawu 104 o redwyr i Ysgol Llanllechid ddydd Sadwrn 23 Ebrill ar gyfer ras Moel Wnion. Roedd y rhedwyr yn gwerthfawrogi bod y ras wedi adfywio ac yn ôl i'r trywydd gwreiddiol (sydd yn gorffen i lawr allt serth) ar ôl dwy flynedd o saib. Ar ôl dweud hyn, yn ôl y sôn, roedd cymaint â phum trywydd gwreiddiol felly pwy a wŷr os gefais i o yn union gywir!
Ysgol Llanllechid a ddefnyddiwyd fel man cofnodi ar gyfer y ras. Lleoliad perffaith gyda dim ond rhyw hanner milltir o gerdded / rhedeg ysgafn i gynhesu i fyny cyn cychwyn y ras ger fferm Pant Hwylfa. Ar haul yn tywynnu, dyma gychwyn y ras! Ar ôl i'r rhedwyr adael y lôn a mynd ymlaen i'r mynydd cyntaf, roedd y criw cryfaf yn glir o'r gweddill.
Canlyniadau:
Dynion: 1af Gareth Wyn Hughes
Merched: 1af Andrea Rowlands



Y rhedwyr ar ddiwedd y ras

Am yr holl ganlyniadau ewch i dudalen Facebook Ras Moel Wnion neu i wefan Eryri Harriers.
Y prif bleser i ni wrth gwrs oedd cael gweld cymaint o redwyr yn mwynhau eu hunain cyn, yn ystod ac ar ôl y ras yn ymlacio a rhannu profiadau gyda'i gilydd cyn cerdded yn ôl i lawr i'r ysgol i gael paned, cawl a theisen.

Gwnaed y rhain gan rhai o gymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol ac yr oedd pawb yn canmol, hyd yn oed ar 'Facebook'! Diolch yn fawr i chi am bob dim ac am gael defnyddio'r ysgol ar y diwrnod ac am roi ras plant ymlaen, ble cafwyd 40 o blant yn rhedeg.
Hwn oedd y ras gyntaf i mi arwain, felly diolch yn fawr iawn i bawb a roddodd help llaw mi cyn ac ar ôl y ras. Yn benodol yn ystod y ras: 'marshals' Johnny, Gamel, Adam, Mel, Seren, a Llinos, y cofnodwyr amser Ann, Sharon, Dafydd a Chris, heb anghofio Cathryn, Jen, Joe a Sam. A chyn y ras Gary, Craig, Hugh, Johnny, Math a Dyfed gyda chymorth technegol a radios.
Yr oedd awyrgylch y diwrnod yn braf a hwyliog – yr oeddwn yn hapus iawn ar sut oedd popeth wedi mynd gyda 31 o redwyr Clwb Eryri yn cymryd rhan.
Ross Worthington
(gyda diolch i Emlyn Owen am y cyfieithiad)

Natalie yn dechrau'r tymor ar y brig

Cafodd Natalie Wyn Owen, Ffordd Llanllechid, Rachub sy'n ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen ddechrau da iawn i'r tymor athletau newydd. Taflu'r ddisgen yw ei phrif gamp ar hyn o bryd a hynny mewn cystadlaethau i ferched dan 13 oed. Mewn cystadleuaeth yn Warrington yng nghanol mis Ebrill fe ddringodd Natalie i'r safle cyntaf drwy Brydain pan daflodd y ddisgen am bellter o 24.93m. Curwyd y record flaenorol o dros hanner medr.
Mae hefyd a'i llygaid dros y flwyddyn nesaf ar ddatblygu ei sgiliau o daflu'r shot a phelen mwrthwl. Mae eisoes wedi taflu 9.75m mewn cystadleuaeth shot dan do i ferched dan bymtheg.
I wneud hyn wrth gwrs mae'n rhaid wrth ymroddiad a gwaith caled, gan ymarfer hyd at deirgwaith yr wythnos gyda'i hyfforddwr, Michael Lee yng nghlwb athletau Menai yn Nhreforth.
Gyda'r cystadlaethau nesaf ar Lannau Dyfrdwy, Warrington, Wrecsam, (pencampwriaethau Cymru), Bae Colwyn a Chaerdydd mae'n ofynnol iddi hi a'r teulu roi ymroddiad

i deithio yn bell ac yn aml, sy'n golygu costau mawr. Mae Natalie yn ddiolchgar iawn am y nawdd mae wedi ei dderbyn hyd yma oddi wrth Siop Rachub, Barbwr Ogwen, Royal Oak, Caffi Seren, Dŵr y Mynydd a Haydn o Llanllechid am ei noddi mor hael. Os oes rhywun yn teimlo y gallent helpu drwy noddi Natalie bydd y teulu yn falch o glywed gennych.
Pob dymuniad da i Natalie, a byddwn yn disgwyl darllen am fwy o'i llwyddiannau dros yr Haf.



Natalie Wyn Owen sy'n cael cryn lwyddiant yn y byd athletau.

Dyfarnu Pêl-droed



Iwan (ail o'r dde) ar y noson fawr.

Cafodd Iwan Hywel Lloyd Ellis, 5 Lliadiart y Gwenyn, gyfle i ddyfarnu gêm Cymdeithas Pêl-droed Ysgolion Cymru yn Llandudno nos Iau 28 Ebrill yng nghlwb Pêl-droed Llandudno.

Roedd Cymru yn chwarae yn erbyn Iwerddon (Timau Dan 18) – felly tipyn o gyfrifoldeb. Da iawn Iwan a phob dymuniad da gyda'r dyfarnu yn y dyfodol.

Canlyniadau Clwb Pêl-droed Mynydd Llandygái
16 Ebrill: Llanerchymedd o Mynydd Llandygai 2 (goliau: Liam W. a Jamie Lee)
21 Ebrill: Pentraeth 3 – M. Llandygai 2 (goliau: Liam W. ac Alwyn Roberts)
23 Ebrill: Mynydd Llandygai 2 – Prestatyn 3 (goliau: Jamie Lee ac Ian Burgess)
28 Ebrill: Mynydd Llandygai 1 – Pentraeth 1 (gôl: Ben Parker)
04 Mai: Mynydd Llandygai 4 – Mochdre 3 (Alwyn Roberts 2, Jamie Lee ac 'own goal')